

ADRODDIAD BLYNYDDOL
PENSIYNAU
O FESEN DERWEN A DYF



Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	1
----------------------------------	----------

Cyflwyniad	3
-------------------------	----------

Crynodeb	4
-----------------------	----------

Cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun
Tudalen y Cyfranwyr
Aelodau o Bwyllgor y Gronfa
Aelodau o Banel Cynghori'r Gronfa Bensiynau
Aelodau o'r Bwrdd Pensiynau

Adroddiad Materion Gweinyddu	9
---	----------

Cyflwyniad
Prisiant yr Actwari
Trefnau Llywodraethu
Newidiadau i Drethi Pensiwn Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Diwygio Taliadau Ymadael
Cysoni Lleiafswm Pensiwn Gwarantedig
Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol
Rhyddid o ran Dewis/Sgamiau
Gwybodaeth am Gyflawniad
Nifer yr Aelodau
Dadansoddiad o'r Aelodaeth



Adroddiad ar Faterion Buddsoddiadau	17
--	-----------

Cyflwyniad
Rheolaeth ar Faterion Buddsoddiadau
Hynt y Buddsoddiadau
Cyflawniad Rheolwr y Gronfa
Manylion Rheolwyr y Gronfa
Gwir golledion / Elw drwy werthu buddsoddiadau
Trefnau gwarchod
Costau rheolwyr y gronfa ac ymgynghorwyr
Dadansoddiad o'r Buddsoddiadau ar sail Gwerth Teg
Sut mae'r cyfranddaliadau wedi'u rhannu ymhlith y gwledydd
Dadansoddiad o'r Buddsoddiadau
Dadansoddiad o Asedau'r Gronfa
Casgliadau o'r Cyfranddaliadau Mwyaf
Datganiad o Egwyddorion ar gyfer Buddsoddi
Egwyddorion Buddsoddi Myners – Datganiad o
Gydymffurfiaeth

Adroddiad ar y Cyfrifon	29
--------------------------------------	-----------

Cyfrif y Gronfa
Datganiad o'r Gwir Asedau
Nodiadau ar Gyfrifon Cronfa Bensiynau
Cyfraniadau
Barn yr Archwilwyr

Adroddiad yr Actwari	39
-----------------------------------	-----------

Cyflwyniad

Adroddiad ar Faterion Cyfathrebu	43
---	-----------

Cyfarfodydd Blynnyddol
Desg Gymorth
Gwefan
Cyflwyniadau
Prudential
Datganiadau Buddion Blynnyddol
Trefnau Cyfathrebu'n Electronig
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014
Contractio Allan
Cynnydd Costau Byw

Trefnau Llywodraethu Pensiynau	45
---	-----------

Bwrdd Pensiwn Lleol
Strwythur Llywodraethu
Cyfarfodydd y Panel Pensiynau
Gwybodaeth a Sgiliau
Risg

Partneriaid	53
--------------------------	-----------

Manylion Cyswllt y Cyfranwyr	54
---	-----------



Rhagair y Cadeirydd



Mae'n bleser gennyf, a minnau'n Gadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau RhCT, gyflwyno Adroddiad Cronfa Bensiynau eleni.

Cafodd y Pwyllgor ei sefydlu yn ffurfiol ym mis Mai 2016, a hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bob Aelod Etholedig sydd wedi gwasanaethu ar y Pwyllgor yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Hoffwn hefyd ddiolch i Fwrdd Pensiynau ein Cronfa sy'n parhau i gynorthwyo a chefnogi'r Gronfa i gyflawni ei gyfrifoldebau o ran llywodraethu a chydymffurfio yn effeithiol.

Yn sgîl cyfnod cyni hir, diolch i'r Llywodraeth Ganolog, nid yw'n syndod bod nifer y cyfranwyr 'gweithredol' wedi gostwng dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Wrth i Gyflogwyr y Gronfa barhau i ailfodelu eu trefniadau o ran darparu gwasanaethau a lleihau gweithluoedd, bydd angen monitro'r risg a'r effaith barhaus ar y Gronfa yn ofalus. Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae dros 19,000 o bensiynwyr a dibynyddion yn elwa o'r cynllun gwerthfawr hwn. Cafodd cyfanswm o £96.5m o fuddion pensiwn eu talu allan yn ystod y flwyddyn.

Gwelwyd ansicrwydd yn y marchnadoedd buddsoddi eleni, a dylanwadodd nifer o ddigwyddiadau gwleidyddol amlwg ar yr economi fyd-eang. Rwyf yn falch o nodi, er gwaethaf cefndir o ansicrwydd y farchnad, sicrhaodd y Gronfa enillion cadarnhaol cryf yn ystod 2016/17, gan gynyddu ei gyfanswm gwerth o £2.4bn i £2.9bn ar 31 Mawrth 2017.

Yn unol â pholisi'r Llywodraeth Ganolog, mae'r gwaith yn parhau tuag at sefydlu wyth cronfa buddsoddi ledled Cymru a Lloegr. Un ohonynt yw Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r trefniadau llywodraethu yn cynnwys Pwyllgor Llywodraethu ar y Cyd sy'n cynnwys cynrychiolydd aelod etholedig o bob cronfa (Cadeirydd y pwyllgorau priodol), sy'n cael ei gefnogi gan Weithgor Swyddogion. Rhagwelir y bydd llwyfan buddsoddi Cymru gyfan ar waith erbyn 1 Ebrill 2018 gan ganiatáu i fuddsoddiadau gael eu trosglwyddo i'r gronfa mewn modd a reolir maes o law.

Mae baich gwaith y Garfan Bensiynau, o ran cymhlethdod a'r swp o waith, yn parhau'n her ac mae gofynion cynyddol ar y Gwasanaeth. Mae nifer o fentrau positif wedi'u cyflwyno i gefnogi gwaith darparu gwasanaethau a helpu i ddiwallu disgwyliadau aelodau ein cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, cyflwyno ein swyddogaeth hunan-wasanaethu, cynlluniau recriwtio wedi'u targedu a chynlluniau datblygu drwy'r cynllun prentisiaeth cenedlaethol.

I gloi, mae heriau anodd o hyd i Gyflogwyr y Gronfa ac mae cost y cynllun yn debygol o barhau'n her. Serch hynny, mae manteision ehangach amlwg i weithwyr a chyflogwyr o gynnal cynllun pensiwn gwerthfawr, sy'n anelu at ddarparu lefel briodol o incwm ymdeol i'n pensiynwyr a'u dibynyddion.



■ Christopher Lee, C.P.F.A.

Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen



Cyflwyniad



Rwy'n falch i gael nodi am flwyddyn llwyddiannus arall mewn perthynas â pherfformiad buddsoddiad y Gronfa, er bod y llwyddiant hynny wedi dod ymhlith cefnlen o ddigwyddiadau gwleidyddol eangach, sef Etholiad Arlywyddol yr Unol Daleithiau a Refferendwm 'Brexit' yr UE. Mae'r digwyddiadau hyn wedi cyflwyno cyfnod ansicrwydd ac anwadlwrdd mewn marchnadoedd byd-eang. Llwyddodd y Gronfa i gyflawni enillion o 21.6% yn 2016/17. Cynhaliodd Cronfa Rhondda Cynon Taf ei safle o fewn y chwarter uchaf o gronfeydd pensiwn awdurdodau lleol dros y 5 mlynedd ddiwethaf. Roedd gwerth y Gronfa dros £3 biliwn yn ystod chwarter cyntaf 2017/18.

Cwblhawyd Prisio Teirblynnyddol y Gronfa yn llwyddiannus yn ystod 2016/17. Pennodd gyfraddau cyfraniad hyd at 2019/20 a gwella'r lefel ariannu gyffredinol i 82%. Rwy'n ymwybodol bod llawer o'n Gyflogwyr yn parhau i wynebu pwysau ariannol nas gwelwyd o'r blaen o ganlyniad i fesurau cynni parhaus. Byddaf yn sicrhau bod ein gwaith monitro a chyfathrebu ag Actwari'r Gronfa a'ch hunain yn effeithiol ac yn briodol dros y cyfnod sy'n dilyn.

Mae Adran 13 o Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol benodi person (Adran Actwari'r Llywodraeth) i adrodd a yw prisiau CPLIL yn bodloni nifer o nodau. Y prif brawf yw penderfynu a yw cyfraniadau wedi'u pennu er mwyn sicrhau effeithlonrwydd cost hirdymor. Rhagwelir y bydd adroddiad Adran 13 yn seiliedig ar Brisiad y Gronfa 2016 yn cael ei gyhoeddi yn ystod 2018.

Cronfa Bensiynau RhCT yw'r Gronfa Bensiynau CPLIL fwyaf sy'n gweithredu yng Nghymru. Er bod yr aelodaeth gyffredinol bellach yn uwch na 67,500, mae nifer yr aelodau 'gweithredol' wedi gostwng 6.2% ers 2015/16. Byddwn yn parhau i fonitro'r effaith ar aeddfedrwydd y Gronfa wrth i gyfran yr aelodau gweithredol leihau. Byddwn ni'n adlewyrchu hyn fel bo angen yn y prisiau yn y dyfodol neu yn y cyfamser, os bydd unrhyw Gyflogwyr yn ymgymryd â mesurau sylweddol i leihau'r gweithlu.

Wrth edrych ymlaen, ymddengys fod yr effaith tymor byr ar farchnadoedd ariannol yn ymddangos yn wydn i ddigwyddiadau gwleidyddol 2016/17, ond mae'n debygol y bydd y Gronfa'n profi rhywfaint o ansicrwydd tymor byr sy'n gysylltiedig ag ymyriadau gwleidyddol parhaus, megis polisiau masnach a thramor yr Unol Daleithiau, a thrafodaethau 'Brexit'. Mae'r Strategaeth Gyllido yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod ein hasedau'n cyd-fynd yn briodol â'n hamcanion a'n rhwymedigaethau hirdymor.

Disgwylir ymgynghori pellach yn ystod yr hydref mewn perthynas â 'diwygio taliadau ymadael' ar y rheoliadau drafft sy'n rheoli'r cap taliadau ymadael ac adenillion taliadau ymadael. Gallai hyn olygu gweithredu'r ddau ddiwygiad ar ddechrau 2018. Byddwn ni'n ymdrechu i roi gwybod i Gyflogwyr y Gronfa am y cynnydd, oherwydd mae'n bosibl y bydd y ddeddfwriaeth sy'n deillio o hynny yn effeithio ar ymarferion ailstrwythuro'r gweithlu.

Mae Bwrdd Cynghori Cynllun CPLIL yn parhau â'i waith mewn perthynas â'r dadansoddiad "cap ar gost", sy'n cyd-fynd â'r broses a gyflwynwyd gan Drysorlys EM. Yr amcan allweddol yw sicrhau cydbwysedd teg o risgiau rhwng aelodau'r cynllun a'r trethdalwr, y mae eu canlyniadau'n debygol o lywio cynlluniau'r cynllun a chyfraniadau aelodau yn y dyfodol.

Bu'r garfan yn hynod o brysur yn cydweithio yn rhan o Bartneriaeth Pensiwn Cymru mewn perthynas â threfniadau cyfuno buddsoddiadau, er mwyn cwrrd â therfyn amser y Llywodraeth Ganolog ar 1 Ebrill 2018. Bydd y cyfrwng buddsoddi ar y cyd yn caniatáu i 8 Cronfa Cymru gynnal eu hymreolaeth eu hunain mewn perthynas â gosod strategaeth fuddsoddi, llywodraethu, ac ati, gan ddarparu cyfle buddsoddi ac effeithlonrwydd mewn cronfa asedau cyfunol gwerth £15bn.

Hyderaf bydd yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad yma o gymorth ichi, ond os ydych chi o'r farn bod modd gwella ar yr adroddiad a'i gynnwys, croesawn eich sylwadau.

C. Lee

Crynodeb

Cyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun

Awdurdod Gweinyddu

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyrff sydd wedi'u derbyn i'r Cynllun

Agored Cymru

Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen

Capita Glamorgan Consultancy

Cymdeithas Gyrfa Cymru

Cwmni Gyrfa Cymru – Morgannwg Ganol a Phowys Cyf

Drive Ltd

Buddsoddiad Cyllid Cymru

Cyllid Cymru

Halo Leisure

KGB Cleaning Ltd

Uned Ddata Llywodraeth Leol

Sefydliad i'r Deillion Merthyr Tudful

Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful

Cartrefi Cymoedd Merthyr

Partneriaeth Menter Pen-y-waun

Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyngor Gofal Cymru gynt)

Trivallis

Valleys to Coast Housing

VINCI Construction UK Limited

Llywodraeth Cymru
(Asiantaeth Datblygu Cymru gynt)

Cydbwyllgor Addysg Cymru

Cyrff rhestredig sydd â'r hawl i benderfynu

Amgen Cymru

Cyngor Cymuned Bracla

Coleg Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr
(dim aelodau gweithredol ar hyn o bryd)

Consortïwm Canolbarth y De

Prif Gwnstabl De Cymru

Coleg Y Cymoedd

Cyngor Cymuned Coety Uchaf

Cyd-bwyllgor Amlogfa Llangrallo

Cyngor Cymuned Cwm Garw

Cyngor Cymuned Gelligaer

Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn

Cyngor Cymuned Llanbradach
(dim aelodau gweithredol ar hyn o bryd)

Cyngor Cymuned Llanharan

Cyngor Cymuned Llanhari
(dim aelodau gweithredol ar hyn o bryd)

Cyngor Cymuned Llantrisant

Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref

Cyd-bwyllgor Amlogfa Llwydcoed

Cyngor Tref Maesteg

Coleg Merthyr Tudful

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru

Cyngor Cymuned Pont-y-clun

Cyngor Tref Pontypridd

Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

Awdurdod Tân De Cymru

Tribiwnlys Prisio De Cymru

Cyngor Cymuned Tonyrefail

Prifysgol De Cymru

Diffiniad o Gyrrff

Cyrff rhestredig

Mae'r rhain yn cynnwys Cyngorau Sir, Awdurdodau'r Heddlu ac Asiantaeth yr Amgylchedd ymhlith nifer eraill.

Cyrff sydd â'r hawl i benderfynu

Mae gyda chyrff sydd â'r hawl i benderfynu, megis Cyngorau Cymuned, bwerau i benderfynu pwy o blith y rhai hynny y maen nhw'n eu cyflogi sy'n cael ymuno â'r cynllun..

Cyrff sydd wedi'u derbyn i'r cynllun

Mae modd i gyrrff sydd wedi'u derbyn gymryd rhan yn y cynllun drwy gytundeb derbyn. Mae cyrrff sydd wedi'u derbyn i'r cynllun yn cael nodi un ai rhai o'u gweithwyr sy'n cael ymuno â'r cynllun ynteu bawb.

Tudalen y Cyfranwyr (Pwy ydy Pwy)

Pennaeth Gwasanaeth Pensiynau, Cyflogres a Thaliadau - Ian Traylor

Mae Ian wedi bod yn gwasanaethu ym maes llywodraeth leol ers 1990 gan ddechrau gyda Chyngor Sir Morgannwg Ganol a throsglwyddo i Gyngor Rhondda Cynon Taf yn ystod cyfnod yr aildrefnu ym 1996. Mae gan Ian gefndir cadarn ym maes rheolaeth ariannol / rheoli risgiau ac mae e wedi treulio'r rhan fwyaf o'i yrfa yn gweithio ym maes Archwilio Mewnol. Ymunodd Ian â'r Gwasanaeth Pensiynau yn 2006 ac mae e'n aelod gweithredol o Banel Cyngori'r Gronfa Bensiynau.



Blaen Gyfrifydd, Y Trysorlys a Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiynau - Yvonne Keitch

A hithau wedi gwasanaethu ym myd llywodraeth leol ers dros 30 o flynyddoedd, mae Yvonne yn gyfrifol am weinyddu buddsoddiadau'r gronfa bensiynau. Mae hi wedi bod yn Rheolwr Buddsoddiadau'r gronfa ers 1995.



Uwch Gyfrifydd Gweithredol, y Gronfa Bensiynau - Vanessa Thomas

Dechreuodd Vanessa weithio yn y byd llywodraeth leol yn 1989, pan ymunodd â Chyngor Bwrdeistref Cwm Rhondda.

Trosglwyddodd i Gyngor Rhondda Cynon Taf yn ystod cyfnod yr aildrefnu ym 1996. Mae hi wedi gweithio yn rhan o'r garfan fuddsoddi ers 2005. Ar hyn o bryd, hi yw'r swyddog gweithredol sy'n gyfrifol am gynnal a chadw, a chau cyfrifon y Gronfa Bensiynau.



Uwch Reolwr Carfan - Catherine Black

Ymunodd Catherine â ni yn 2013. Cyn hynny bu'n gweinyddu pensiynau mewnol mewn cwmni manwerthu rhyngwladol, gan gynnwys gweithredu newidiadau rheoleiddiol, cyfrifo pensiynau aelodau a rhoi cyflwyniadau i aelodau o'r cynllun.



Aelodau o Bwyllgor y Gronfa

Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau - Y Cyngorydd Mark Norris

Efe yw Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol ac mae e'n cynrychioli ward Cwm Clydach. Mae e wedi bod yn gadeirydd ers cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar 5 Gorffennaf 2016.



Aelod o'r Panel Pensiynau - Y Cyngorydd Hopkins

Mae'r Cyngorydd Hopkins yn Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, Cydraddoldeb a'r Gymraeg ac yn gynrychiolydd ward Llanharan. Mae e wedi bod yn aelod ers cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar 5 Gorffennaf 2016.



Aelod o'r Panel Pensiynau - Y Cyngorydd S.Pickering

Mae'r Cyngorydd Pickering yn aelod etholedig sy'n cynrychioli ward Ynys-y-bwl. Mae hi wedi bod yn aelod ers cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar 5 Gorffennaf 2016.



Aelod o'r Panel Pensiynau - Y Cyngorydd Emyr Webster

Mae'r Cyngorydd Webster yn aelod etholedig sy'n cynrychioli ward Treorci. Mae e wedi bod yn aelod ers cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar 5 Gorffennaf 2016.



Aelod o'r Panel Pensiynau - Y Cyngorydd Graeme Smith

Mae'r Cyngorydd Smith yn aelod etholedig sy'n cynrychioli ward y Porth. Mae e wedi bod yn aelod ers cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar 5 Gorffennaf 2016.



Aelodau o Banel Cynggori'r Gronfa Bensiynau

Cyfarwyddwr Uwchadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen a Swyddog Materion Adran 151 y Ddeddf - Christopher Lee C.P.F.A.

Ar ôl ennill gradd BSc(Anrh) o Brifysgol Cymru Abertawe ym 1990, aeth Chris ymlaen i ennill cymhwyster Public Sector Chartered Accountant (CIPFA) ym 1995, tra oedd yn cynnal swydd Cyfrifydd i Gyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful.

Ymunodd â Rhondda Cynon Taf yn Rheolwr Cyllid ym 1997 a chafodd ei ddyrchafu i swydd Prif Gyfrifydd y Cyngor ym 1999. Bu'n gweithio i'r Comisiwn Archwilio cyn ail-ymuno â Rhondda Cynon Taf yn Gyfarwyddwr Uwchadran Materion Cyllid yn 2002. Cafodd ei benodi yn Gyfarwyddwr Uwchadran y Gwasanaethau Corfforaethol ym mis Mawrth 2014.



Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol ac Is-swyddog Materion Adran 151 y Ddeddf - Barrie Davies CIPFA/ACIS.

Ymunodd Barrie ag Awdurdod Lleol Cyngor Morgannwg Ganol yn 1985 gan symud i Rongda Cynon Taf yn dilyn cyfnod yr aildrefnu ym 1996. Mae Barrie yn aelod gweithredol o'r Panel Buddsoddi a Gweinyddu. Cafodd ei benodi i'w swydd bresennol ym mis Mawrth 2014.



Pennaeth Gwasanaeth Pensiynau, Cyflogres a Thaliadau - Ian Traylor

Mae Ian wedi bod yn gwasanaethu ym maes llywodraeth leol ers 1990 gan ddechrau gyda Chyngor Sir Morgannwg Ganol a throsglwyddo i Gyngor Rhondda Cynon Taf yn ystod cyfnod yr aildrefnu ym 1996. Mae gan Ian gefndir cadarn ym maes rheolaeth ariannol / rheoli risgiau ac mae e wedi treulio'r rhan fwyaf o'i yrfa yn gweithio ym maes Archwilio Mewnol. Ymunodd Ian â'r Gwasanaeth Pensiynau yn 2006 ac mae e'n aelod gweithredol o Banel Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiynau.



Blaen Gyfrifydd, Y Trysorlys a Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiynau - Yvonne Keitch

A hithau wedi gwasanaethu ym myd llywodraeth leol ers dros 30 o flynyddoedd, mae Yvonne yn gyfrifol am weinyddu buddsoddiadau'r gronfa pensiynau. Mae hi wedi bod yn Rheolwr Buddsoddiadau'r gronfa ers 1995.



Pennaeth Adroddiadau Addysg a Chyllid - Stephanie Davies F.C.C.A.

Yn dilyn gyrfa yn y sector preifat, ymunodd Stephanie â Chyngor Rhondda Cynon Taf yn 2000 fel Blaen Gyfrifydd gyda chyfrifoldeb dros gynhyrchu cyfrifon statudol y Cyngor. Yn ei swydd bresennol, mae Stephanie yn rheoli carfan Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiynau. Daeth hi'n aelod o'r Panel yn ystod 2014.



Uwch Gyfrifydd Gweithredol, y Gronfa Bensiynau - Vanessa Thomas

Dechreuodd Vanessa weithio yn y byd llywodraeth leol yn 1989, pan ymunodd â Chyngor Bwrdeistref Cwm Rhondda. Trosglwyddodd i Gyngor Rhondda Cynon Taf yn ystod cyfnod yr aildrefnu ym 1996. Mae hi wedi gweithio yn rhan o'r garfan fuddsoddi ers 2005. Ar hyn o bryd, hi yw'r swyddog gweithredol sy'n gyfrifol am gynnal a chadw, a chau cyfrifon y Gronfa Bensiynau.



Carolyn Dobson

Mae Carolyn Dobson yn ymgynghorydd annibynnol ar ran nifer o Gronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol, gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Sir Swydd Stafford, Cyngor Swydd Buckingham a Bwrdeistref London Borough of Enfield. Roedd hi'n Gyfarwyddwr materion Buddsoddiadau gyda chwmni Abbey Asset Managers. Mae ganddi dros 30 mlynedd o brofiad yn rheoli cronfeydd ac yn ymgynghorydd materion buddsoddiadau.



David Cullinan

Mae David wedi gweithio fel Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol y Gronfa ers 8 mlynedd. Mae e'n gweithio'n hunangyflogedig bellach ar ôl gweithio am dros 30 o flynyddoedd i State Street. Roedd e'n rheoli cysylltiadau ag amrediad eang o gleientiaid – cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus a phreifat, sefydliadau rheoli asedau, cwmnïau bywyd ac elusennau. Mae ei gefndir ym maes cyfrifeg buddsoddiadau, gwerthuso buddsoddiadau a phrisio unedau. Treuliai ran helaeth o'i yrfa yn mesur cyflawniad cronfeydd, gan ganolbwyntio ar y sector cyhoeddus ac yn benodol ar goladu ystadegau tymor hir a thueddiadau ar ran y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS).



Aelodau o'r Bwrdd Pensiynau

Cynrychiolydd y Cyflogwyr

Yr Athro Hugh Coombs
(Cadeirydd)
Prifysgol De Cymru



Cynrychiolydd y Cyflogwyr

Mr Gwyn Williams
Awdurdod Heddlu De Cymru



Cynrychiolydd yr Aelodau

Mr Rob Whiles
Pensiynwr Cronfa Bensiynau RhCT



Cynrychiolydd yr Aelodau

Mrs Angela Pring
Aelod o Gronfa Bensiynau RhCT
a chynrychiolydd Undeb Llafur
Unsain



■ Ian Traylor

Pennaeth Gwasanaeth Pensiynau, Cyflogres a Thaliadau



Adroddiad Materion Gweinyddu



Cyflwyniad

Hoffwn i ddiolch i Gyflogwyr am eu cefnogaeth mewn perthynas â chyflwyniadau data diwedd blwyddyn. Mae hyn wedi galluogi'r Gwasanaeth i gwrdd â therfynau amser Priso, Adran Actwari'r Llywodraeth a Datganiad Buddion Blynnyddol yn llwyddiannus. Mae materion ansawdd data yn parhau i fod yn ganolbwynt ar gyfer y garfan. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda chyflogwyr unigol i gynorthwyo gwelliannau pellach wrth symud ymlaen, yn unol â Chynllun Gwella Data y Gronfa.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae pwysedd gwaith a chymhlethdodau cyffredin yn parhau'n her wrth i gyflogwyr ailstrwythuro. Ym mis Medi 2016, cyflwynodd y Gronfa swyddogaeth hunan wasanaeth i aelodau ar "Fy Mhensiwn Ar-lein". Bydd hyn yn helpu â phwysedd gwaith. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae mwy o aelodau wedi manteisio ar hyn, a byddwn ni'n parhau i'w gyflwyno yn ystod 2017/18. Law yn llaw a'n cynlluniau cynllunio'r gweithle a hydwythdedd hir dymor, rwy'n falch o gyhoeddi y bydd y Gronfa yn cefnogi cyflwyno swydd brentisiaeth arall o fis Medi 2017.

Mae Cyflogwyr y Gronfa yn parhau i archwilio gwahanol fodelau gweithredu gweithlu a allai, er enghraifft, arwain at ymarferion allanol, adnoddau a rennir, a derbyn cyflogwyr newydd. Bydd y Gwasanaeth yn parhau i gefnogi a chysylltu â phartion perthnasol mewn perthynas â chynigion o'r fath.

Prisiant yr Actwari

Cafodd y Prisiad tair blynedd ei gwblhau erbyn y terfyn amser statudol ar 31 Mawrth 2017. Wrth osod y Prisiad, roedd yr Awdurdod Gweinyddu wedi ystyried ei amcanion ariannol tymor hir a strategol. Mae'r gofyniad statudol newydd ynghylch cyfraniadau'r cyflogwr wedi cael sylw dyledus. Mae'r gofyniad yn nodi y dylai cyfraniadau'r cyflogwr gael eu gosod er mwyn "sicrhau effeithlonrwydd cost y cynllun dros y tymor hir, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r gronfa bensiynau". Cafodd cyfnod adfer y Gronfa ei gyfyngu. Bydd y Gwasanaeth yn monitro taliadau gan gyflogwyr yn unol â'r cyfraddau newydd. Ystyrir taliadau hwyr yn unol â pholisi torri amodau'r Gronfa.

Trefnau Llywodraethu

Ar lefel genedlaethol, mae Bwrdd Cyngori Cynllun CPLIL yn parhau â'i waith mewn perthynas â chynigion "cap ar gost", ochr yn ochr â'r trefnau modelu gan y Trysorlys. Er mwyn helpu i lywio penderfyniadau, mae Adran Actwari Llywodraeth wedi gofyn am newidiadau i'r ffordd y mae Cronfeydd Pensiynau LGPS yn rhoi cyfrif ar atebolrwydd o fis Ebrill 2017, ac mae ein systemau ariannol wedi'u diwygio yn sgil y gofyniad newydd hwn.

Ar lefel leol, cafodd newidiadau sylweddol eu cyflwyno yn ystod Mai 2016, pan sefydlwyd Pwyllgor Cronfa Bensiynau RhCT. Mae'r trefniadau newydd wedi gwella mesurau llywodraethu presennol ynghylch trefnau gwneud penderfyniadau strategol y Gronfa.

Mae swyddogion yn parhau i weithio'n agos â Bwrdd Pensiynau RhCT i ystyried, ar y cyd, nodweddion yn ymwneud â risg a chydymffurfio.

Newidiadau i Drethi Pensiwn Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

Lwfans Oes

Lwfans Oes (LTA) yw'r nifer uchafswm o gynilion pensiwn y mae modd i chi'i gronni drwy gydol eich oes sy'n elwa o ostyngiad dreth y DU. O ganlyniad i Ddeddf Cyllid 2016, mae lefel y LTA arferol wedi gostwng eto o 6 Ebrill 2016. Mae'r gostyngiad o £1.25m i £1m ar gyfer y blynnyddoedd treth 2016/17 a 2017/18.

Bydd cyfle i chi ddiogelu unrhyw gynilion pensiwn a gafodd eu cronni cyn 6 Ebrill 2016 rhag tâl LTA (ar gyfer cynilion o dros £1m hyd at uchafswm cyffredinol o £1.25m), os ydych chi'n bodloni meini prawf perthnasol y HMRC. Mae modd gwneud cais am Ddiogelwch Unigol neu Ddiogelwch Sefydlog drwy wasanaeth ar-lein newydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi:

<https://www.gov.uk/guidance/pension-schemes-protect-your-lifetime-allowance#individual-protection-2016>

Lwfans Blynnyddol

Ers i'r Lwfans Blynnyddol ostwng i £40,000, rydyn ni wedi gweld mwy o achosion o aelodau sy'n rhagori ar y lwfans hwn ac yn derbyn tâl treth. Mae hyn yn golygu treth sy'n daladwy gan aelodau trwy eu proses hunanasesu unigol neu efallai y bydd cyfle i drefnu dewis 'cynllun un talu' gyda Chronfa Rhondda Cynon Taf.

Anfonodd Carfan Cyfathrebu'r Gronfa lythyron yn ystod mis Hydref 2017 at aelodau unigol a allai gael eu heffeithio gan y newidiadau.

Ar 6 Ebrill 2016, cyflwynodd y llywodraeth y 'Lwfans Blynnyddol wedi Tapro' ar gyfer unigolion sydd ag 'incwm wedi'i addasu' sydd dros £150,000. Bydd 'incwm trothwy' o £110,000 yn berthnasol ar gyfer unigolion sydd â chyflogau is. Bydd yn rhoi sicrwydd iddyn nhw os mai dim ond bob hyn a hyn y byddan nhw'n ychwanegu at eu cynilion pensiwn. Os ydy incwm net yr unigolyn yn llai na £110,000, byddan nhw ddim fel arfer yn destun i'r lwfans blynnyddol wedi tapro. Cyfradd gostyngiad yn y lwfans blynnyddol yw £1 am bob £2 y mae'r incwm addasedig yn fwy na £150,000, hyd at ostyngiad uchafswm o £30,000. Lansiodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi gyfrifiannell ar-lein er mwyn helpu aelodau i ganfod swm y lwfans blynnyddol y maen nhw wedi ei ddefnyddio.

<https://www.tax.service.gov.uk/paac>

Diwygio Taliadau Ymadael (Cyrrff y Sector Cyhoeddus)

Cap Ymadael

Yn dilyn cynigion y Llywodraeth Ganolog i gyflwyno cap o £95,000 ar gyfanswm gwerth y taliadau ymadael ar gyfer 'Cyrrff y Sector Cyhoeddus', mae cryn oedi wedi bod o ran gweithredu'r rheoliadau.

Bydd y polisi hwn yn ymestyn i bob corff lle mae cyflogaeth ac arferion tâl yn gyfrifoldeb i lywodraethau y DU neu Lywodraeth Cymru, ac felly nid yw'n berthnasol i holl Gyflogwyr y Gronfa.

Adennill Taliadau Ymadael

Mae'r Llywodraeth wedi gohirio cyflwyno polisi ynghylch Adennill Taliadau Ymadael. Y bwriad oedd rhoi'r rheoliadau ar waith o fis Ebrill 2016. Mae'r polisi yn gofyn i'r sawl sy'n ennill cyflogau uwch (dros £80,000) sy'n rhoi'r gorau i weithio yn y sector gyhoeddus ac yn derbyn taliad ymadael i'w ad-dalu, neu ad-dalu rhan ohono os ydyn nhw'n dychwelyd i weithio yn y sector gyhoeddus o fewn 12 mis.

Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol wedi cadarnhau bod disgwyl i broses ymgynghori bellach gael ei chynnal mewn perthynas â 'diwygio taliadau ymadael'. Bydd yr ymgynghoriad ar reoliadau drafft sy'n llywodraethu'r cap ar daliadau ymadael ac adennill taliadau ymadael. Efallai y bydd yn golygu rhoi'r ddau ddiwygiad ar waith yn gynnar yn 2018, yn amodol ar flaenoriaethau Llywodraeth San Steffan.

Cysoni Lleiafswm Pensiwn Gwarantedig

Yn dilyn dod i ben â'r dewis i contractio allan o Bensiwn y Wladwriaeth ychwanegol ym mis Ebrill 2016, a chyflwyno Pensiwn y Wladwriaeth un haen newydd, bydd dulliau diogelu hawliau contractio allan unrhyw aelodau presennol y rhaglen yn cael eu cynnal. Serch hynny, bydd gwasanaethau cymorth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cael eu cwtogi. Yn y pen draw bydd y gwasanaethau'n cael eu tynnu'n ôl yn gyfan gwbl, felly fyddan nhw ddim yn dilyn hawliau contractio allan. Ond, byddan nhw'n cyhoeddi amserlenni cau i gynlluniau er mwyn cymharu yn erbyn y dyddiad contractio allan a Lleiafswm Pensiwn Gwarantedig sydd ar gofnodion y cynllun. Enw'r cynllun yma yw Cysoni contractio allan Lleiafswm Pensiwn Gwarantedig.

Ym mis Rhagfyr 2018, mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn bwriadu anfon gwybodaeth at unigolion am eu gweithgareddau contractio allan ac, o bosibl, am eu swm GMP (wedi'i gysoni neu beidio).

Mae'r Gronfa wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn perthynas â'r gofyniad cysoni GMP. Caiff y newyddion diweddaraf ei roi i'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau.

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Daw Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yr UE i rym yn y DU ar 25 Mai 2018. Byddan nhw'n newid y ffordd y mae prosesyddion data sylweddol yn gweithredu. Bydd angen cefnogaeth ein Cyflogwyr a'n partneriaid trydydd parti ar y Gronfa er mwyn cyd-fynd â'r gofynion newydd a chyflwyno mesurau ataliol lle bo angen.

Bydd sancsiynau o dan y rheoliadau newydd yn sylweddol, sy'n adlewyrchu pa mor bwysig yr ystyrir trefnau prosesu data personol cywir (a diogelwch digonol). Bydd y sancsiynau yn cynnwys dirwyon o hyd at €20m neu 4% o drosiant blyneddol byd-eang os yw'n fwy, a gofyniad i hysbysu'r ICO o unrhyw dor cyfraith o fewn 72 awr.

Rhyddid o ran Dewis/Sgamiau

Er nad yw'r rhyddid newydd yn berthnasol i'r CPLIL, mae mwy o bobl wedi mynegi diddordeb i'r Gronfa yn y posibilrwydd o drosglwyddo buddion i drefniadau Cyfraniad Diffiniedig, er mwyn manteisio ar hyblygrwydd 'Rhyddid o ran dewis'.

Law yn llaw â rhyddid o'r fath, rydyn ni wedi gweld cynnydd cenedlaethol yn y sgamiau trosglwyddo pensiwn. Yn fwy diweddar, cyhoeddodd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol adroddiad yn ymwneud â Throsglwyddiadau Pensiwn Buddion Diffiniedig, gan asesu'r cyngor y mae defnyddwyr yn ei dderbyn gan gwmnïau. O'u sampl, dim ond 47% a gafodd eu hystyried yn addas. Mae'n ofynnol i'r Gronfa ymgymryd â gwiriadau diogelu diwydrwydd dyladwy, fodd bynnag, mae hyn wedi achosi ffrithiant rhwng y Gronfa, ac aelodau'r cynllun (eu hymgynghorwyr) o ran oedi posibl a allai godi mewn perthynas â'r broses drosglwyddo.



Gwybodaeth am Gyflawniad

Mae canlyniadau'r dangosyddion perfformiad allweddol a gafodd eu nodi a'u cytuno gan y Panel Pensiynau am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2017 wedi'u rhestru yn y tabl sydd gyferbyn.

Safonau'r Gwasanaeth

Mae llawer o gyflogwyr y Gronfa wedi gwneud rhywfaint o resymoli ac ailstrwythuro mewnol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi cynyddu ein llwyth gwaith ar gyfer cynhyrchu costau ymddeol cynnar i gyflogwyr, ynghyd ag enghreifftiau a phecynnau ymddeol i aelodau.

Mae darparu'r wybodaeth gymhleth yma mewn modd amserol a chywir wedi bod yn heriol. Ond rydyn ni wedi bodloni'r galw heb i safonau ein perfformiad cyhoeddedig lithro, na chwaith wedi achosi anfantais i waith blaenoriaeth arall.

Mae hyn wedi cael ei gyflawni trwy ailddyrranu a thargedu adnoddau yn unol â'n hamcanion allweddol.

Rydyn ni'n rhan o Glwb Meincodi'r 'Chartered Institute of Public Finance and Accountancy'. Mae hyn yn mesur y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan Gronfa Bensiynau Rhondda Cynon Taf yn erbyn safonau'r diwydiant.

Mae'r tabl hwn yn dangos ein perfformiad gwirioneddol yn erbyn y safon meincnod.

Anghydfodau

Yn unol â deddfwriaeth, mae gan y Gronfa Bensiynau Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol sy'n ymdrin â chwynion ffurfiol yn erbyn y Cynllun. Yn ystod 2016/17, daeth un gŵyn i law, ond doedd dim sail iddi.

Disgrifiad o'r weithdrefn	Targed Cyflawniad	Targed Ymyrraeth	Cyflawniad gwirioneddol	Nifer yr achosion a gafodd eu prosesu
Amcangyfrif Ysgariad (amcangyfrif aelodau o'r cynllun)	10 diwrnod	95%	93.71%	143
Buddion Diogel (hysbysiad i bobl sy'n gadael)	10 diwrnod	90%	90.91%	2783
Prosesu Ad-daliadau (ad-dalu aelodau o'r cynllun)	10 diwrnod	95%	97.65%	973
Cais gan Gyflogwr am Amcangyfrif Ymddeol	5 diwrnod	95%	97.40%	461
Taliadau Ymddeol (Ymddeol o Aelodaeth Weithredol)	5 diwrnod	95%	98.81%	673
Buddion Diogel yn Daliad adeg Ymddeol	5 diwrnod	95%	97.87%	658
Trosglwyddo i mewn (cyfrif o'r cynllun pensiwn blaenorol gan gynnwys ceisiadau trosglwyddo hwyr)	10 diwrnod	90%	85.56%	270
Trosglwyddo allan (taliad i'r cynllun pensiwn sy'n derbyn yr arian)	10 diwrnod	95%	98.46%	389



Aelodaeth y Gronfa

Nifer y Cyflogwyr

	Gweithredol	Wedi Ymadael	Cyfanswm
Corff sydd wedi'i gofrestru	29	22	51
Corff sydd wedi'i dderbyn	20	9	29
Cyfanswm	49	31	80

Aelodaeth y Gronfa ar 31 Mawrth:-

Nifer yr aelodau sy'n cyfrannu

Blynyddoedd	2013	2014	2015	2016	2017
Rhifau	24969	27432	25491	25501	23918

Nifer y Buddiolwyr Gohiriedig

Blynyddoedd	2013	2014	2015	2016	2017
Rhifau	17758	18831	20255	22358	24641

Nifer y Pensiynwyr a'r Bobl sy'n Ddibynnol

Blynyddoedd	2013	2014	2015	2016	2017
Rhifau	17354	17626	18043	18470	18955

Nifer y rhai sydd heb benderfynu ynghylch tynnu allan o'r cynllun

Blynyddoedd	2013	2014	2015	2016	2017
Rhifau	2390	2421	2646	2400	2506

Tueddiadau Aelodaeth

	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	% Cynnydd/ Cwmp o 15/16
Cyflogwyr Gweithredol	44	43	43	46	49	
Cyfranwyr	24969	27432	25491	25501	23918	-6.21%
Pensiynwyr	14730	15005	15499	15830	16315	+3.06%
Pobl sy'n ddibynnol	2624	2621	2544	2640	2640	0%
Buddiolwyr Gohiriedig	17758	18831	20255	22358	24641	+10.21%

Cost y Gronfa i bob Aelod


	Cost yr aelod (£)	Cost yr aelod (£)
	2015/2016	2016/2017
Costau Gweinyddu	26.23	24.96
Treuliau Rheoli'r Buddsoddiadau	113.21	135.05
Costau Goruchwyllo a Llywodraethu	1.95	4.21
CYFANSWM	141.39	164.22

Ar hyn o bryd, mae'r Gronfa Bensiynau yn cyflogi 26 aelod o staff gweinyddol llawn amser a 2 aelod yn adran buddsoddiadau a chyfrifon y Gronfa Bensiynau.


Aelodaeth y Gronfa a Dadansoddiad

Aelodaeth y Gronfa ar 31 Mawrth:-


Nifer yr aelodau sy'n cyfrannu




Nifer y Buddiolwyr Gohiriedig



Nifer y Pensiynwyr a'r Bobl sy'n Ddibynnol



Nifer y rhai sydd heb benderfynu ynghylch tynnu allan o'r cynllun



Dadansoddiad o'r Aelodaeth

Cefnu ar statws gweithredol

	2015	2016	2017
Prosesu Ad-daliadau	366	296	351
Trosglwyddo cyfraniadau i gynlluniau eraill	1020	50	14
Marw yn ystod Gwasanaeth	24	17	13
Ymddeol yn sgîl salwch	32	44	34
Ymddeoliad cynnar / amodau arferol	152	175	170
Ymddeoliadau yn sgîl dileu swyddi / ystyriaethau effeithlondeb	445	295	175
Ymddeoliad hyblyg	28	20	24
Ymddeoliad hwyr	101	85	84
Tynnu'n ôl o'r cynllun	324	298	685
Buddion Diogel	1529	2423	2811
Eraill sy'n gadael	74	172	175
Cyfanswm	4095	3875	4536



Buddion Gohiriedig - rhai sy'n gadael y Cynllun

	2015	2016	2017
Trosglwyddo cyfraniadau i gynlluniau eraill	633	120	138
Marw yn ystod Gwasanaeth	23	22	21
Ymddeol yn sgîl salwch	7	9	9
Ymddeoliad cynnar / amodau arferol	227	236	422
Buddion eraill	7	25	24
Nifer yr aelodau gohiriedig sydd wedi ail-ymuno â'r Cynllun	0	6	11
Cyfanswm	897	418	625

■ Yvonne Keitch

Blaen Gyfrifydd, Y Trysorlys a Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiynau



Adroddiad ar Faterion Buddsoddiadau



Adroddiad ar Faterion Buddsoddiadau

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gwerth buddsoddiadau Cronfa Bensiynau Rhondda Cynon Taf oedd £2,467.6miliwn. Erbyn 31 Mawrth 2017, tyfodd y Gronfa i £2,983.8miliwn.

Llwyddodd Cronfa Bensiynau Rhondda Cynon Taf i gyflawni adenillion o 21.6% yn 2016/17, gan sicrhau safle rhif 34 yn ôl canran dros y 3 blynedd. Mae cyflawniad y Gronfa, gan fwyaf, yn sgil sefyllfa'r portffolio o ran bondiau o dan bwysau a soddgyfrannau dros eu pwysau. Roedd Cronfa Bensiynau Rhondda Cynon Taf ymhell o flaen y meincnod dros 3, 5, a 10 mlynedd, gan sicrhau safle rhif 15 ar y raddfa yn ôl canran dros 3 blynedd, safle rhif 5 dros 5 mlynedd, a safle rhif 13 dros 10 mlynedd.

Rheolaeth ar Faterion Buddsoddiadau

Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn gyfrifol am drefnau rheoli strategol y Gronfa.

Mae Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Rheng Flaen (ac yntau'n Swyddog S151) a gaiff ei gefnogi gan Banel Buddsoddi a Gweinyddu'r Gronfa, wedi dirprwyo cyfrifoldeb am yr holl faterion gweithredol o ddydd i ddydd.

Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen Rhondda Cynon Taf ydy Cadeirydd y Panel, ac mae'r aelodau'n cynnwys dau ymgynghorydd annibynnol ac uwch-swyddogion cyllid eraill. Bydd y panel yn cyfarfod bob 3 mis i ystyried materion gweinyddu a buddsoddi ac i bennu polisi yn ôl sefyllfa'r farchnad ac i holi a herio'r Rheolwyr Materion Buddsoddiadau am eu cyflawniad. Ar hyn o bryd, mae 8 o fandadau buddsoddi ar wahân.

Baillie Gifford (soddgyfrannau traddodiadol), Newton (soddgyfrannau alffa uwch), Baillie Gifford (soddgyfrannau alffa uwch), BlackRock (soddgyfrannau'r DU), Invesco (soddgyfrannau'r DU), Bondiau BMO GAM, CBRE Property a BlackRock (goddefol).

Yn ystod 2016/17, cafodd BlackRock ei benodi'n rheolwr soddgyfrannau goddefol, gan gymryd lle Legal & General.

Hynt y Buddsoddiadau

Ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017, ein hadnillion ar ein buddsoddiadau oedd 21.6% o'i gymharu â meincnod cynllun State Street penodol o 22.2%.

Mae'r dadansoddiad isod yn rhoi'r elw yn ôl dosbarthiad o'r asedau ar gyfer 2016/17

	Meincnod 2016/17 %	RhCT 2016/17 %
Soddgyfrannau	30.0	28.3
Bondiau	7.9	7.8
Eiddo	7.7	5.8
Arian Parod	0.3	2.3
Cyfanswm yr Asedau	22.2	21.6

Cyflawniad Rheolwyr y Gronfa

Mae manylion ynghylch cyflawniad priodol pob rheolwr yn erbyn eu meincnodau perthnasol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017 yn y tabl.

	Meincnod %	Adenillion y Rheolwyr %
BMOGAM (bondiau)	7.9	7.8
Baillie Gifford (soddyfrannau traddodiadol)	28.4	28.4
Baillie Gifford (soddyfrannau alffa-uwch)	33.0	35.0
Newton (soddyfrannau alffa-uwch)	33.0	23.5
CBRE (eiddo)	7.7	5.8
BlackRock (soddyfrannau'r DU)	22.0	17.4
Invesco (soddyfrannau'r DU)	22.0	10.8
BlackRock (goddefol)	33.1	8.2 [#]
Legal & General (goddefol)	33.1	21.1 [#]

[#]Yn ystod 2016/17, cafodd BlackRock ei benodi'n rheolwr soddyfrannau goddefol, gan gymryd lle Legal & General.



Manylion Rheolwyr y Gronfa

Mae manylion gwerth marchnad buddsoddiadau rheolwyr y Gronfa i'w gweld yn y tabl canlynol.

Rheolwr y Gronfa	Gwerth ar y Farchnad		Canran o'r Gronfa	
	31/03/16 £'000	31/03/17 £'000	31/03/16 %	31/03/17 %
Baillie Gifford (soddgyfrannau traddodiadol)	510,410	656,126	20.7	22.0
Baillie Gifford (soddgyfrannau alffa uwch)	489,916	661,065	19.9	22.2
Newton (soddgyfrannau alffa uwch)	404,498	493,328	16.4	16.5
Invesco (soddgyfrannau'r DU)	131,535	146,034	5.3	4.9
BlackRock (soddgyfrannau'r DU)	117,889	138,748	4.8	4.7
Legal & General (goddefol)	101,052	0	4.1	0
BlackRock (goddefol)	0	134,531	0	4.5
BMO GAM (bondiau)	531,141	573,558	21.5	19.2
CBRE (eiddo)	162,530	173,373	6.6	5.8
Rheoli'n Fewnol	18,621	7,005	0.7	0.2
Cyfanswm	2,467,592	2,983,768	100.00	100.00

Doedd dim un buddsoddiad yn cyfrif am fwy na 5% o asedau'r Gronfa.

Mae gwerth marchnad y buddsoddiadau yn y tabl yma'n cynnwys buddsoddiadau tymor byr fel gweddill arian neu adneuo arian felly mae'n wahanol i gyfanswm y buddsoddiadau tymor hir yn unig.

Rydyn ni'n ceisio mynd i'r afael ag elfennau o risg buddsoddiadau trwy gyflogi nifer o reolwyr y gronfa mewn ymgais i reoli risg rheolwyr, a gyda mandadau sy'n cynnwys ystod o asedau gan gynnwys soddgyfrannau, bondiau ac eiddo. Mae disgwyl i reolwyr gynnal casgliad eang o gyfrifon buddsoddi a chydymffurfio â rheoliadau buddsoddi Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau ychwanegol mae'r Panel Buddsoddi a Gweinyddu'n eu pennu. Mae'r sector gwladol a diwydiant yn amrywio buddsoddiadau gwaelodol ymhellach.

Mae'r Panel Buddsoddi a Gweinyddu'n monitro perfformiad y rheolwyr i gyd yn erbyn targed sy'n gysylltiedig â meincnod dyrannu asedau bob chwarter. Yn ei hanfod, mae hyn yn rhwystro rheolwyr rhag symud i ffwrdd yn rhy bell oddi wrth y nod, ond yn caniatáu peth hyblygrwydd i chwyddo elw ar fuddsoddiadau ar yr un pryd.

Elw a cholledion ar Fuddsoddiadau

Ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017, ein hadnillion ar ein buddsoddiadau oedd 21.6%, o'i gymharu â meincnod LAPFF ar gyfer awdurdodau lleol o 21.4%, sef rhif 34 ar y raddfa yn ôl canran. Adenillion y Gronfa dros 3 blynedd oedd 12.5% o'i gymharu â chyfartaledd LAPFF ar gyfer awdurdodau lleol o 11.2%, sef rhif 15 ar y raddfa yn ôl canran ymhlith y cronfeydd a gafodd eu mesur.

	2015/16 £'000	2016/17 £'000
Elw drwy werthu buddsoddiadau	89,719	169,737
Colledion drwy werthu buddsoddiadau	(31,259)	(28,407)
Gwir golledion / elw drwy werthu buddsoddiadau	58,460	141,330
Newid yng ngwerth y farchnad	(71,494)	335,984
Gwir gynnydd/ (gostyngiad) mewn gwerth	(13,034)	477,314

Trefnau gwarchod

Mae Cronfa Bensiynau Rhondda Cynon Taf wedi penodi State Street i weithredu'n geidwad cyfranddaliadau'r Gronfa. Caiff cyfranddaliadau'u dal yn ôl gorchymyn y ceidwad er budd Rhondda Cynon Taf. Mae cwmni State Street yn cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol.

Costau Rheolwyr y Gronfa ac Ymgynghorwyr

Mae rheolwyr y gronfa'n cael eu talu yn ôl system 'cyfradd ostyngol' sy'n seiliedig ar werth y gronfa ar y farchnad. Mae rhai rheolwyr yn cael ffi cyflawni ychwanegol, os caiff targedau sydd wedi'u pennu eu bodloni.

Mae ymgynghorwyr y gronfa'n derbyn tâl sefydlog bob blwyddyn am eu gwasanaethau ac am fynychu cyfarfodydd bob tri mis. Mae costau ychwanegol i'w talu yn achos cyfarfodydd arbennig eraill.

Dadansoddiad o'r Buddsoddiadau ar sail Gwerth Teg

	2015/16		2016/17	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Soddgyfrannau				
Y DU	360,050		446,452	
Tramor	1,052,581		1,377,241	
		1,412,631		1,823,693
Bondiau				
Y DU	456,709		504,792	
Tramor	57,994		61,352	
		514,703		566,144
Mynegrifol				
Y DU	0		0	
Tramor	0		0	
		0		0
Cronfeydd buddsoddi				
Y DU	145,808		164,456	
Tramor - arall	146,641		197,134	
		292,449		361,590
Cronfeydd buddsoddi - eiddo				
Y DU - arall	153,427		162,407	
Tramor - arall	8,679		7,091	
		162,106		169,498
Cyfanswm Buddsoddiadau'r Tymor Hir		2,381,889		2,920,925

Dyw'r Gronfa ddim yn ymgymryd ag unrhyw drefniadau ar gyfer rhoi stoc ar fenthyg. Mae'r buddsoddiadau i gyd, ar wahân i eiddo, wedi'u nodi'n fuddsoddiadau a ddyfynnwyd, sy wedi'u pennu'n fuddsoddiadau ar sail gwerth teg a bu dim gwaith ailddosbarthu. Mae gwerthoedd yr asedau sy wedi'u cario yn y fantolen yr un peth â'r Gwerth Teg uchod.

Mae'r buddsoddiadau uchod yn Offerynnau Ariannol wedi'u dynodi'n "Werth Teg drwy Elw a Cholled". Mae pob incwm yn sgil buddsoddi, elw/colled ar waredu buddsoddiadau, a newidiadau yng ngwerth y buddsoddiadau yng Nghyfrif y Gronfa yn codi o Offerynnau Ariannol wedi'u dynodi yn "Werth Teg drwy Elw a Cholled", ac eithrio llog ar Arian Parod. Mae arian parod yn Offerynnau Ariannol wedi'u dynodi'n "Fenthyciadau a Derbyniadau".

Mae'r soddgyfrannau a'r arian parod wedi'u crybwyll wedi'u categorïddio yn hierarchaeth gwerth teg lefel 1. Mae bondiau a chronfeydd buddsoddi (eiddo) wedi'u categorïddio yn hierarchaeth gwerth teg lefel 2.

Sut mae'r cyfranddaliadau wedi'u rhannu ymhlith y gwledydd

Mae Rheolwyr y Gronfa yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau mewn nifer o wledydd. Mae'r tabl isod yn nodi gwerth cyfranddaliadau Rheolwyr y Gronfa ar 31 Mawrth 2017:

	£'000	%
Soddgyfrannau'r DU	610,908	20.5
Ewrop	370,739	12.4
Yr UDA a Chanada	808,282	27.1
Japan	39,306	1.3
Y Pasiffig	147,055	4.9
Soddgyfrannau Rhyngwladol eraill	208,993	7.0
Bondiau	566,144	19.0
Eiddo	169,498	5.7
Arian parod	62,843	2.1
Cyfanswm	2,983,768	100

Dyw'r symiau a nodir ddim yn dangos cronfeydd wedi'u clirio.

Dadansoddi incwm yn sgil buddsoddi sydd wedi'i gronni yn ystod 2016/17

	DU £'000	Tu allan i'r DU £'000	Byd-eang £'000	Cyfanswm £'000
Soddgyfrannau	4,926		29,984	34,910
Bondiau	19,098	969		20,067
Eiddo (Daliadau Uniongyrchol)				
Eiddo Amgen	7,050	13		7,063
Arian Parod a Chyfwertth	38			38
Arall				
Cyfanswm	31,112	982	29,984	62,077

Dyw'r symiau a nodir ddim yn dangos cronfeydd wedi'u clirio.

Dadansoddi asedau'r Gronfa, yn gywir ar 31 Mawrth 2017

	DU £'000	Tu allan i'r DU £'000	Byd-eang £'000	Cyfanswm £'000
Soddgyfrannau	278,871		1,906,412	2,185,283
Bondiau	504,792	61,352		566,144
Eiddo (Daliadau Uniongyrchol)				
Eiddo Amgen	162,407	7,091		169,498
Arian Parod a Chyfwertth	24,205		38,638	62,843
Arall				
Cyfanswm	970,275	68,443	1,945,050	2,983,768

Casgliadau o'r Cyfranddaliadau Mwyaf

Dyma'r 10 daliad mwyaf ar gyfer pob Rheolwr Cronfa Soddgyfrannau ar 31 Mawrth 2017:

10 Daliad Mwyaf Baillie Gifford

Cyfranddaliad	£'000
Amazon	12,795
British American Tobacco	11,196
Prudential	10,807
Ashtead	10,552
St James Place	10,107
Tesla Motor	9,592
Svenska Handelsbanken	9,247
Nestle	8,730
Market Axess	8,334
Facebook	8,000

10 Daliad Mwyaf (Alffa Uwch) Baillie Gifford

Cyfranddaliad	£'000
Amazon	30,109
Royal Caribbean Cruises	22,783
Prudential	22,284
Naspers	21,057
TSMC	19,050
SAP	17,373
Alphabet	16,005
Anthem	14,627
CRH	13,356
Moody's	13,306

10 Daliad Mwyaf (Alffa Uwch) Newton

Cyfranddaliad	£'000
Microsoft	24,658
Apple	18,540
Alphabet	18,364
Citigroup	13,010
Altria	11,362
Unilever	10,322
Relx	10,204
United Technologies	10,154
Japan Tobacco	10,049
Diageo	10,035

10 Daliad Mwyaf (Soddgyfrannau'r DU) Blackrock

Cyfranddaliad	£'000
Relx	13,161
British American Tobacco	12,921
Compass	12,153
Wolseley	10,417
Reckitt Benckiser	10,186
Shire	8,339
Rio Tinto	7,732
Royal Dutch Shell 'b'	7,416
Sky	7,193
Barclays	7,147

Datganiad o Egwyddorion ar gyfer Buddsoddi

1. Cyfrifoldeb Cyffredinol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw'r corff statudol sydd yn gyfrifol am weinyddu Cronfa Bensiynau Rhondda Cynon Taf ar ran y cyrff cyfansoddol sydd ar y rhestr a'r rhai hynny sy wedi'u derbyn i'r Cynllun. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi polisi buddsoddi, penodi pobl addas i weithredu'r polisi hwnnw, cynnal adolygiadau a chadw llygad ar y buddsoddiadau.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Cronfa Bensiynau sy'n gytbwys o ran gwleidyddiaeth. Mae'n cynnwys aelodau etholedig sy'n goruchwyllo cyfrifoldeb y Cyngor o ran gweinyddu'r Gronfa Bensiynau. Mae'r pwyllgor hwn yn gyfrifol am drefnau rheoli strategol y Gronfa Bensiynau.

Mae'r Cyngor wedi penodi Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol sydd â chyfrifoldebau Swyddog Materion Adran 151 y Ddeddf i roi cyngor iddo ynglŷn â'i gyfrifoldebau o ran y Gronfa Bensiynau. Rydyn ni wedi sefydlu Panel Cyngori yn gefn iddo. Dyma aelodau o'r Panel:

- Dirprwy Swyddog Materion Adran 151 y Ddeddf
- Pennaeth Cyllid: Adroddiadau Addysg a Chyllid
- Pennaeth Gwasanaeth (Pensiynau, Cyflogres a Thaliadau)
- Blaen Gyfrifydd, Y Trysorlys a Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiynau
- Uwch Gyfrifydd, Y Trysorlys a Buddsoddiadau'r Gronfa Bensiynau
- Ymgynghorwyr Annibynnol

Mae'r Panel a'r Pwyllgor yn cwrdd bob 3 mis. Dydy'r Cyngor ddim yn ymddiriedolwr yng ngwir ystyr y gair (yn dechnegol, Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yw'r ymddiriedolwr), ond yn hytrach, mae'n gweithredu fel lled-ymddiriedolwr.

2. Prif amcan y Gronfa

Prif amcan y Gronfa yw ariannu buddion pensiwn a chyfandaliadau i'r aelodau wedi iddyn nhw ymddeol neu i'r rheiny sy'n ddibynnol arnyn nhw ar ôl i'r aelod farw, boed hynny cyn ymddeol neu wedi hynny.

3. Amcanion Cyllido

Dylai Rhondda Cynon Taf weinyddu'r gronfa yn y fath fodd fel bo gwerth y gronfa, o dan amgylchiadau cyffredin, yn fwy na digon i dalu'r hyn sy'n ddyledus i'r aelodau hynny sydd wedi ymddeol a bod canran cyfraniadau'r aelodau sydd heb ymddeol yn cael ei phennu yn ddigonol ar gyfer cynnal costau'r dyfodol.

Mae'r llinynnau mesur sy'n cael eu defnyddio yn sgîl y gwaith hwn yn cyd-fynd â llinynnau mesur y Prisiad yr Actwari diwethaf. Byddwn ni'n adolygu'r sefyllfa bob 3 blynedd.

4. Amcanion y buddsoddiadau

Amcan y gronfa yw gwneud digon o elw o'r buddsoddiadau i dalu costau tymor hir y gronfa.

Bydd y Panel Buddsoddi a Gweinyddu, ar y cyd â Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen yn sicrhau bod un neu ragor o reolwyr y buddsoddiadau yn cael eu penodi i weinyddu asedau'r gronfa pensiynau yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009. Bydd cytundebau/mandadau yn cael eu sefydlu ar gyfer cyfarwyddo rheolwyr ynghylch y ffordd mae'r portffolio o fuddsoddiadau i'w reoli.

Efallai bydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, gan ystyried cyngor Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen, yn rhoi cyfarwyddiadau penodol ynghylch dyrannu asedau strategol a bydd yn sicrhau bod yr asedau'n addas mewn perthynas ag anghenion y Gronfa. Bydd pob rheolwr buddsoddiadau (gyda'i feincnod a'i darged i adlewyrchu'i swyddogaeth) yn rhydd i ddewis ble'n union bydd e'n buddsoddi arian y gronfa ac mae disgwyl iddo gynnal casgliad eang o gyfrifon buddsoddi.

5. Math o fuddsoddiadau

Mae pob rheolwr wedi llofnodi cytundeb sy'n amlinellu meincnodau, targedau, ystod dyrannu asedau ac unrhyw gyfyngiadau perthnasol yn unol â chanllawiau'r Pwyllgor.

Fel roedd hi fis Mehefin 2016, mae'r rheolwyr buddsoddiadau canlynol gyda'r Gronfa:-

Rheolwr Soddyfrannau traddodiadol	21%
Rheolwr soddyfrannau goddefol byd-eang	4%
2 Reolwr alffa-uwch Byd-eang	36%
2 Reolwr Ecwiti alffa-uwch y DU	10%
Rheolwr Llog Penodol	22%
Rheolwr Eiddo	6%
Rheoli'n Fewnol	1%

Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, gan ystyried cyngor Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen, wedi cytuno ar feincnod sy'n cynnig cydbwysedd rhwng risg ac adenillion.

Mae'r Panel wedi penderfynu peidio â buddsoddi mewn soddyfrannau preifat ar hyn o bryd.

Mae'r Panel wedi penderfynu peidio â benthg stoc ar hyn o bryd chwaith.

6. Polisi ynglŷn â risg

Trwy osod meincnodau ar gyfer hawliau'r rheolwyr i fuddsoddi arian y gronfa a thrwy gymharu cynnydd y buddsoddiadau â thargedau penodol, rydyn ni'n gofalu bod y rheolwyr ddim yn crwydro oddi wrth ein canllawiau cyffredinol. Eto i gyd, mae'n canllawiau ni'n ddigon ystywyth i reoli'r gronfa mewn modd a fydd yn cynyddu'r adenillion.

O benodi mwy nag un rheolwr dros ein buddsoddiadau, rydyn ni'n gwasgaru'r risg.

Mae'n ofynnol i bob rheolwr gynnal casgliad o fuddsoddiadau amrywiol a chadw at y cyfyngiadau yn unol â'r cytundeb.

7. Adenillion ar fuddsoddiadau

Prif amcan y buddsoddiadau yw cynyddu eu gwerth gymaint â phosibl ac felly lleihau'r swm mae'r cyflogwr yn gorfod cyfrannu - y cyfan o fewn y cyfyngiadau risg sydd wedi'u nodi.

Yn ôl gofynion statudol, mae rhaid i werth y gronfa anelu at fod yn ddigon i dalu pensiwn llawn i bob aelod (100%). Mae hyn wedi'i gytuno â'r actwari ar sail oes byd gwaith y rhai sy'n aelod o'r cynllun. Fe fyddwn ni'n cyfrifo maint anghenrheidiol y gronfa bob 3 blynedd yn sgîl proses adolygu gan yr actwari.

Mae ymagwedd weithredol ynglŷn â gweinyddu'r gronfa (ac eithrio'r mandad Ecwiti Goddefol Byd-eang), a'r disgwyl yw y bydd hi'n gwneud yn well na'r meincnodau sydd wedi'u pennu ymhén hir a hwyr. Mae'n dilyn felly bydd yr adenillion yn fwy nag amcangyfrif yr actwari dros y blynyddoedd.

Mae rheolwyr buddsoddi'r Gronfa wedi cael meincnodau a thargedau pwysedig i adlewyrchu'r mandadau sydd gyda nhw. Mae gyda ni weithdrefnau monitro ar gyfer materion dyrannu asedau a dewis stoc y farchnad. Dyma'r targedau ar gyfer pob mandad:-

Portffolio Mynegai	Meincnod y Portffolio	Targed y Portffolio
Rheolwr Soddyfrannau Traddodiadol	Y DU - FTSE All Share UDA – FTSE All World Ewrop – FTSE All World Europe Dwyrain Pell – FTSE All World Dev Asia Gwledydd Tramor Eraill – MSCI Emerging Index	Mynegai Cyfansawdd +1% y flwyddyn dros gyfnod treigl o 3 blynedd
Rheolwr soddyfrannau goddefol byd-eang	FTSE A W All World	Mynegai
Rheolwr alffa uwch byd-eang	MSCI All Countries World Index	Mynegai +2% dros gyfnod treigl o 3 blynedd
Rheolwr soddyfrannau alffa uwch y DU	FTSE All Share Index	Mynegai +2% dros gyfnod treigl o 3 blynedd
Rheolwr Llog Sefydlog	Bondiau Llywodraeth y DU – FTS UK Govn All Stocks Corfforaethol (DU) – IBoxx GBP Non Gilts	Mynegai cyfansawdd +0.5% y flwyddyn dros gyfnod treigl o 3 blynedd
Rheolwr Eiddo	Mynegai Prisiau Manwerthu	Mynegai +4.5%

Rydyn ni'n adolygu gwaith y rheolwyr yn gyson ar sail y data chwarterol a blynyddol rydyn ni'n eu cael gan gwmni WM.

8. Sylweddu Buddsoddiadau

Dim ond asedau sy'n gymharol hawdd eu gwerthu y mae hawl gan y rheolwyr eu prynu. Rhaid i'r rheolwyr gael caniatâd arbennig os ydyn nhw eisiau buddsoddi mewn rhan o gronfa gyfunol sydd ddim yn hawdd ei gwerthu.

Adolygir y Strategaeth Dyrannu Asedau yn flynyddol i sicrhau bod adenillion, risg ac anwadlwydd yn cael eu rheoli ac yn gyson â'r strategaeth fuddsoddi gyffredinol.

9. Buddsoddiadau sy'n parchu ystyriaethau cymdeithasol

Prif egwyddor sy'n rhedeg trwy bolisi materion buddsoddi'r Gronfa yw cael yr adenillion mwyaf posibl trwy fanteisio ar yr ystod lawn o fuddsoddiadau yn unol â rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Er gwaethaf hynny, mae'r Panel yn disgwyl i reolwyr buddsoddiadau y Gronfa roi ystyriaeth i faterion ynglŷn â'r amgylchedd, cymdeithas a llywodraethu wrth bwyso-a-mesur cyfleoedd buddsoddi.

Gyda'r materion yma mewn cof, dylai penderfyniadau ynghylch dewis stociau y rheolwyr fod yn well, yn hytrach na chyfyngu ar ddewis mewn unrhyw ffordd. Dydy'r Gronfa ddim yn 'hidlo' stociau sydd ar gael i'r rheolwyr mewn modd negyddol.

Mae'r Panel hefyd yn mynnu bod rheolwyr buddsoddiadau gweithredol y Gronfa hefyd yn ymgysylltu â chwmnïau maen nhw'n buddsoddi ynddyn nhw i hyrwyddo trefnau llywodraethu corfforaethol da.

Mae'r Gronfa yn aelod o Fforwm Cronfa Bensiynau Llywodraeth Leol (LAPFF). Diben LAPFF yw hyrwyddo buddiannau buddsoddi cronfeydd pensiynau llywodraeth leol, ac i gryfhau'u dylanwad, a hwythau'n gyfranddalwyr, ac ar yr un pryd â hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a safonau cadarn o ran trefnau llywodraethu corfforaethol o blith y cwmnïau sy'n destun y buddsoddiadau.

Mae cyflawniad y farchnad a rheolwyr yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Panel Cyngori. Mae gan aelodau'r Panel y sgiliau a'r hyfforddiant priodol sydd eu hangen i frwr ati â'r dasg hon. Mae'r Panel hefyd yn cael ei gefnogi gan Gynghorwyr Annibynnol sy'n rhoi'r cyngor priodol i alluogi'r Panel i gyflawni ei swyddogaethau i'r safon orau bosibl.

10. Manteisio ar Hawliau Pleidleisio

Mae disgwyl i reolwyr buddsoddiadau ecwiti gweithredol y Gronfa arfer eu hawliau pleidleisio i hyrwyddo trefnau llywodraethu corfforaethol da a chyfrifoldeb cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae'r Panel wedi cytuno ar batrwm pleidleisio sy'n cynnwys canllawiau ar arfer dda ynghylch trefnau llywodraethu. Rydyn ni'n cyflogi asiantaeth pleidleisio annibynnol i gadw llygad ar y modd mae'r rheolwyr yn pleidleisio.

11. Ceidwaid

Mae Rhondda Cynon Taf wedi penodi ceidwad i warchod buddsoddiadau'r gronfa ar draws y byd. Mae'r cyfan o'r buddsoddiadau yn nwylo'r Ceidwaid yng nghyfrif y Gronfa Bensiynau. Mae'r Cyngor yn cadw swm digonol o arian parod wrth law.

12. Ymgynghorwyr

Mae Rhondda Cynon Taf wedi penodi dau ymgynghorydd annibynnol. Maen nhw wedi'u penodi i roi cyngor strategol i'r Panel ar faterion buddsoddi.

13. Actwari

Mae Rhondda Cynon Taf wedi penodi actwari annibynnol. Ei brif swyddogaeth yw cadarnhau gwerth y Gronfa Bensiynau.

14. Gweinyddu

Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n monitro'r rheolwyr o ran eu gwaith buddsoddi a gweinyddu ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae hyn yn cynnwys:

- gweinyddu prif lyfr cyfrifon a gweithdrefnau cyfrifol ynglŷn ag asedau'r gronfa;
- paratoi adroddiad bob chwarter i'r Panel Buddsoddi a Gweinyddu;
- paratoi adroddiad a chyfrifon blynyddol sydd wedi'u harchwilio'n annibynnol;
- cadw cofnod llawn o'r arian parod i ofalu naill ai fod arian dros ben yn cael ei fuddsoddi ar unwaith neu fod digon yno i dalu'r pensiwn.

15. Bwrdd Pensiynau

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi penodi Bwrdd Pensiynau. Swyddogaeth y Bwrdd Pensiynau yw cynorthwyo'r Cyngor fel 'Rheolwr Cynllun' gan:-

- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r prif reoliadau ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a nodir, mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gan y Rheolydd Pensiwn; a
- Sicrhau bod Rheolwr y Cynllun yn llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn modd effeithiol ac effeithlon.

16. Costau rheolwyr y gronfa ac ymgynghorwyr

Mae rheolwyr y gronfa'n cael eu talu yn ôl system 'cyfradd ostyngol' sy'n seiliedig ar werth y gronfa ar y farchnad. Mae rheolwyr yn cael eu talu yn ôl llwyddiant. Rydyn ni'n talu costau bob 3 mis.

Mae'r ymgynghorwyr yn cael tâl penodedig bob 3 mis.

17. Adolygiad o fframwaith y gronfa bensiynau

Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, gan ystyried cyngor Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen, yn adolygu ei strwythur a'i gyfansoddiad bob 3 blynedd.

18. Cynllun Busnes Blynnyddol

Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, gan ystyried cyngor Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen, yn adolygu ei strwythur a'i gyfansoddiad bob 3 blynedd.

Egwyddorion Buddsoddi Myners - Datganiad o Gydymffurfiaeth

Egwyddor 1. Penderfyniadau Doeth

Dylai awdurdodau sy'n gweinyddu sicrhau bod:

- y bobl neu'r sefydliadau hynny sydd â'r medrau, yr wybodaeth a'r adnoddau angenrheidiol sy'n gwneud y penderfyniadau i'w gwneud nhw'n effeithio ac i gadw llygad ar eu gweithredu; a
- yr arbenigedd gyda'r bobl neu'r sefydliadau hynny fel bo modd gwerthuso a phwyso-a-mesur y cyngor maen nhw'n ei gael, a rheoli unrhyw wrthdaro o ran buddiannau.

➡ Wedi cydymffurfio

Egwyddor 2. Amcanion clir

Dylai amcan(ion) cyffredinol ar gyfer buddsoddiadau fod ar gael ar gyfer y gronfa sy'n rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau'r cynllun a'r effaith bosibl ar drethdalwyr lleol, cadernid y cyfamod o ran cyflogwyr sy heb fod yn awdurdodau lleol, a'r ymagwedd tuag at risg o ran yr awdurdodau gweinyddu a chyflogwyr y cynllun. Dylai ymgynghorwyr a rheolwyr buddsoddiadau gael gwybod beth yw nhw.

➡ Wedi cydymffurfio

Egwyddor 3. Risg a Rhwymedigaethau

Gyda golwg ar baratoi ac adolygu'r strategaeth materion buddsoddiadau, dylai'r awdurdodau sy'n gweinyddu'r gronfa roi ystyriaeth i ffurf a strwythur y rhwymedigaethau. Mae hynny'n cynnwys goblygiadau o safbwynt trethdalwyr lleol, cadernid y cyfamod o ran y cyflogwyr sy'n cymryd rhan, risg y diffyg a risg hirhoedledd.

➡ Wedi cydymffurfio

Egwyddor 4. Asesu cyflawniad

Dylai trefniadau fod yn eu lle ar gyfer mesur cyflawniad y buddsoddiadau, rheolwyr y buddsoddiadau ac ymgynghorwyr yn ffurfiol. Dylai awdurdodau gweinyddu hefyd gynnal asesiad ffurfiol o'u heffeithiolrwydd, a hwythau'n gyrff sy'n gwneud penderfyniadau, ac adrodd yn ôl wrth aelodau o'r cynllun o dro-i-dro.

➡ Wedi cydymffurfio

Egwyddor 5. Cyfrifoldeb o weinyddu

Dylai awdurdodau sy'n gweinyddu cronfeydd:

- mabwysiadu, neu sicrhau bod eu rheolwyr buddsoddiadau'n mabwysiadu, Institutional Shareholders' Committee Statement of Principles ar fater cyfrifoldebau cyfranddalwyr ac asiantau.
- cynnwys datganiad o'u polisi yn ymwneud â chyfrifoldeb o weinyddu yn rhan o'r datganiad ynghylch egwyddorion buddsoddi.
- rhoi gwybod i aelodau o'r Cynllun o dro-i-dro ynglŷn ag arfer y cyfrifoldebau hynny.

➡ Wedi cydymffurfio

Egwyddor 6.

Bod yn agored a threfnau adrodd

Dylai awdurdodau sy'n gweinyddu cronfeydd:

- bod yn hollol agored, cyfathrebu â rhanddeiliaid ar faterion sy'n ymwneud â rheoli buddsoddiadau, y trefnau llywodraethu a gweinyddu a'r risgiau, gan gynnwys cyflawniad yn erbyn amcanion sydd wedi'u nodi.
- cyfathrebu'n rheolaidd ag aelodau o'r Cynllun yn y diwyg sydd orau gyda nhw.

➡ Wedi cydymffurfio



■ Vanessa Thomas

Uwch Gyfrifydd Gweithredol, Y Gronfa Bensiynau



Adroddiad ar y Cyfrifon



Cyfrif y Gronfa

2015/16		2016/17	
£'000		£'000	£'000
	Cyfraniadau		
(85,799)	Cyfraniadau gan y Cyflogwyr	(83,216)	
(25,663)	Cyfraniadau gan yr Aelodau	(25,388)	
(111,462)			(108,604)
	Trosglwyddiadau a dderbyniwyd gan gronfeydd pensiynau eraill		
0	Trosglwyddiadau grŵp a dderbyniwyd gan gronfeydd pensiynau eraill	0	
(4,047)	Trosglwyddiadau unigol a dderbyniwyd gan gronfeydd pensiynau eraill	(3,939)	
			(3,939)
(9,112)	Incwm arall	(3,599)	
			(3,599)
(124,621)			(116,142)
	Buddion		
94,818	Pensiynau	97,391	
24,198	Cymudiad o bensiynau a chyfandaliadau adeg ymddeol	18,504	
2,684	Cyfandaliadau trwy farwolaeth	2,573	
121,700			118,468
	Taliadau i weithwyr a adawodd		
334	Ad-daliadau i weithwyr a adawodd	244	
153	Taliadau i aelodau a dderbyniwyd	101	
0	Trosglwyddiadau grŵp i gynlluniau eraill	0	
6,312	Trosglwyddiadau unigol i gynlluniau eraill	8,094	
6,799			8,439
128,499			126,907
3,878	Ychwanegiadau i'r Gwir Asedau / (tynnu taliadau allan) o ganlyniad i ymdrin ag aelodau	10,765	
			10,765
9,718	Treuliau Rheolwyr	11,499	
			11,499
13,596	Ychwanegiadau i'r Gwir Asedau / (tynnu taliadau allan) gan gynnwys Treuliau Rheolwyr y Gronfa		22,264
	Incwm buddsoddiadau		
(31,142)	Difidend soddgyfrannau	(32,203)	
(23,137)	Incwm o gronfeydd buddsoddi	(20,067)	
0	Incwm o warannau mynegrifol penodol	0	
(2,724)	Incwm o gronfeydd buddsoddi	(2,539)	
(5,953)	Incwm o gronfeydd buddsoddi (eiddo)	(7,230)	
(93)	Llog ar adneuon arian parod	(38)	
(63,049)			(62,077)
13,034	(Elw) a cholledion gwerthu buddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau	(477,314)	
			(477,314)
1,610	Trethi ar Incwm	744	
			744

2015/16		2016/17	
£'000		£'000	£'000
(48,405)	Gwir enillion o'r buddsoddiadau		(538,647)
(34,809)	Gwir enillion/gostyngiad yn y Gronfa ar y flwyddyn		(516,383)
(2,448,339)	Gwir asedau ar ddechrau'r flwyddyn		(2,483,148)
(2,483,148)	Gwir asedau ar ddiwedd y flwyddyn		(2,999,531)

Datganiad o'r Gwir Asedau

31/03/16		31/03/17	
£'000		£'000	£'000
	Buddsoddiadau		
1,412,631	Soddgyfrannau	1,823,693	
514,703	Bondiau	566,144	
59,862	Cronfeydd buddsoddi - Cwmnïau Buddsoddi Penagored	81,025	
232,587	Cronfeydd buddsoddi - Cronfeydd â chyfyngiadau	280,565	
162,106	Cronfeydd buddsoddi - Eiddo	169,498	
2,381,889			2,920,925
86,063	Adneuon Arian parod		63,023
	Buddsoddiadau eraill		
5,753	Llog Cronedig	6,284	
7,662	Dyledwyr Buddsoddi	11,113	
2,940	Treth sy'n adenilladwy	2,575	
16,355			19,972
2,484,307			3,003,920
	Symiau'n ddyledus		
(5,828)	Credydwyr Buddsoddi		(10,220)
	Asedau Cyfredol		
5,118	Cyfraniadau sy'n ddyledus oddi wrth gyflogwyr a gweithwyr	5,209	
2,161	Gweddill arian	3,055	
389	Symiau sy'n ddyledus oddi wrth RCT	20	
1,638	Asedau eraill	1,300	
9,306			9,584
	Ymrwymadau Cyfredol		
(4,637)	Ymrwymadau Cyfredol		(3,753)
2,483,148	Cyfanswm yr asedau sydd ar gael ar ddiwedd y cyfnod		2,999,531

Mae'r cyfrifon yma'n crynhoi trafodion y cynllun ac yn cynnwys y gwir asedau hynny sydd at ddefnydd yr ymddiriedolwyr. Dydy'r cyfrifon yma ddim yn cynnwys ymrwymadau talu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn. Mae crynodeb o sefyllfa actwaraidd y cynllun, sy'n rhoi ystyriaeth i'r ymrwymadau yma, wedi'i gynnwys yn Adroddiad yr Actwari. Fe ddylech chi ddarllen y cyfrifon yma ar y cyd â'r adroddiad hwnnw.

Nodiadau ar Gyfrifon Cronfa Bensiynau

Cyflwyniad

Rydyn ni wedi paratoi'r cyfrifon yma yn unol â gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol (CIPFA) 2015/16 sy'n seiliedig ar safonau IFRS ar gyfer y sector cyhoeddus yn y DU. Mae Adroddiad y Cronfa Bensiynau mwy manwl ar gael ar gais oddi wrth Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen.

Polisiâu Cyfrifo

Cysyniad Croniadau

Mae'r cysyniad cronïadau yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dosbarthau materol incwm a gwariant, ac eithrio gwerthoedd trosglwyddo ag arian. Caiff y rhain eu cyfrif yn ystod blwyddyn lle daw'r dyddiad trosglwyddo i rym, neu yn ystod y flwyddyn lle mae'r actuari yn prisio'r trosglwyddiad os yw'n hwyrach na hynny. Mae'r dosbarthau yma'n cynnwys cyfraniadau cronfa, incwm buddsoddiadau, buddion a dalwyd, costau gweinyddu, ffioedd rheolaeth ar fuddsoddiadau a ffioedd ymgynghorwyr.

Prisio Buddsoddiadau Offerynnau Ariannol

Yn nhermau 'Gwerth Teg', mae pris wedi'i nodi ar gyfer pob buddsoddiad mewn marchnad weithredol. Mae gwariannau rhestredig wedi'u prisio yn ôl IAS 39, gan ddefnyddio prisiau canol y farchnad o Farchnadoedd Stoc cydnabyddedig ar 31 Mawrth 2017. Mae gwarantau llog sefydlog wedi'u prisio'n "lân", ac eithrio llog cronedig. Mae prisiau Sterling mewn perthynas â gwarannau sy'n cael eu henwi mewn arian tramor wedi'u seilio ar gyfraddau cyfnewid ar 31 Mawrth 2017.

Mae cronfeydd o fuddsoddiadau eiddo yn cael eu prisio drwy dechnegau prisio dibynadwy i bennu 'Gwerth Teg'. Mae pris buddsoddiadau mewn eiddo yn seiliedig ar brisiadau annibynnol proffesiynol. Does dim angen dyfarniadau na thybïaethau sylweddol ar unrhyw ased er mwyn pennu 'Gwerth Teg'.

Cyfraniadau Ychwanegol Gwirfoddol (AVCs)

Mae modd i aelodau o'r cynllun ddewis rhoi cyfraniadau ychwanegol tuag at eu pensiwn o'u cyflogau. Yn unol â rheol 5(2)(b), Rheoliadau Cronfa Bensiynau (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016, rydyn ni heb gynnwys Cyfraniadau Ychwanegol Gwirfoddol yn rhan o'r cyfrifon.

£1,210k (£1,273k yn 2015/16) oedd cyfanswm Cyfraniadau Ychwanegol Gwirfoddol yn ystod y flwyddyn. Gwerth ar y farchnad y Cyfraniadau Ychwanegol Gwirfoddol sy'n cael eu buddsoddi ar wahân ar ddyddiad y fantolen oedd £8,094k (£6,939k yn 2015/16).

Costau Prynu a Gwerthu

Mae costau trafodion buddsoddiadau wedi'u cynnwys yn rhan o gostau prynu neu wedi'u cynnwys yn rhan o wir elw/colledion gwerthiannau, yn unol â'r hyn sy'n addas. Mae costau trafodion yn cynnwys ffioedd, comisiynu a dyletswyddau. Gwerthu costau trafodion yn 2016/17 oedd £0.7m (£0.7m yn 2015/16).

Yn ogystal â'r costau uniongyrchol sy wedi'u nodi uchod, mae costau anuniongyrchol sy'n codi trwy gynnig pris ar fuddsoddiadau sy'n rhan o gronfeydd buddsoddi yn gymwys. Dydy'r cynllun ddim yn cael gwybodaeth am gostau anuniongyrchol ar wahân.

Trethiant

Ac yntau'n gynllun gwasanaeth cyhoeddus cofrestredig, mae'r gronfa bensiynau wedi'i heithrio rhag talu treth incwm a threth cynnydd cyfalaf gwledydd Prydain. Ac eithrio'r achosion hynny lle bod caniatâd rhag talu treth wedi'i roi, mae incwm mewn gwledydd tramor yn ostyngedig i dreth sy'n cael ei chadw'n ôl yn y wlad mae'n deillio ohoni.

Rydyn ni'n cyfri'r incwm yn wir incwm mewn achosion lle nad oes modd inni adennill taliadau treth.

Mae ymrwymiad i dalu treth incwm ar ad-dalu cyfraniadau a phensiynau wedi'u compowndio (pensiynau bychain wedi newid yn gyfandaliad). Mae'r taliadau yma'n cael eu talu i adran Cyllid a Thollau ei Mawrhydi bob 3 mis.

Mae modd adennill TAW ar holl weithgareddau, felly mae'r cyfrifon wedi'u cyflwyno heb gynnwys TAW.

Tystysgrif Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar Gyfrifon Cronfa Bensiynau Rhondda Cynon Taf ar gyfer y flwyddyn 2016/17.

Rwy'n tystio fod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiynau Rhondda Cynon Taf ar 31 Mawrth 2017 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn.



Christopher Lee C.P.F.A

Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen



Cyfraniadau

Cyfraniadau'r Cyflogwyr

Actwari'r Gronfa fydd yn penderfynu graddfeydd cyfraniadau'r cyflogwyr fel bydd y gronfa'n parhau'n ddiddyled a bydd yn rhoi sylw i ymrwymïadau cyfredol a rhai tebygol yn y dyfodol wrth ddyfarnu. Bydd prisiad o asedau ac ymrwymïadau'r Gronfa i'r diben yma bob 3 blynedd. Cafodd y prisiad diwethaf ei gynnal ar 31 Mawrth 2016, gyda'r canlyniadau yn dod i rym o 1 Ebrill 2017.

Cyfraniadau'r Gweithwyr

Mae graddfeydd cyfrannu gweithwyr bellach mewn haenau. Bydd y rhai, felly, sy'n ennill mwy o incwm yn rhoi cyfran uwch o'u cyflog i'r cynllun. Dyma'r bandiau ar gyfer blwyddyn 2016/17:

Cyflog Amser Llawn Cyfwerth (FTE)	Cyfradd Gyfrannu
Hyd at £13,600	5.5%
Dros £13,601, hyd at £21,200	5.8%
Dros £21,201, hyd at £34,400	6.5%
Dros £34,401, hyd at £43,500	6.8%
Dros £43,501, hyd at £60,700	8.5%
Dros £60,701, hyd at £86,000	9.9%
Dros £86,001, hyd at £101,200	10.5%
Dros £101,201, hyd at £151,800	11.4%
Dros £151,801	12.5%

O 1 Ebrill 2014, mae dewis 50/50 yn caniatáu i aelodau dalu hanner y cyfraniadau a ddangosir uchod, a chronni pensiwn sydd hanner y raddfa arferol.



Cyfraniadau Posibl a Buddion Posibl

Mae'r tabl isod yn nodi'r cyfraniadau a dderbyniwyd a'r buddion a dalwyd.

	Cyfraniadau Gweithwyr		Cyfraniadau Cyflogwyr		Pensiynau, Cyfandaliadau a Buddion yn sgîl marwolaeth	
	2015/16 £'000	2016/17 £'000	2015/16 £'000	2016/17 £'000	2015/16 £'000	2016/17 £'000
Math o gorff						
Gweinyddu	8,171	8,018	28,243	28,285	33,015	31,017
Wedi'u derbyn	3,281	3,376	13,814	14,076	12,707	13,654
Wedi'u rhestru	14,211	13,994	43,742	40,855	75,978	73,797
Cyfanswm	25,663	25,388	85,799	83,216	121,700	118,468

Mae cyfraniadau cyflogwyr yn cynnwys £8,179k o gyfraniadau ariannu diffyg (£10,879k yn 2015/16). Does dim cyfraniadau estynedig (£26k yn 2015/16).

Cyfraniadau Cyflogwyr

	Cyfraniadau Cyflogwyr (£)	Cyfraniadau Gweithwyr (£)
Agored Cymru	17,726.59	4,869.74
Amgen Cymru (Cynon)	194,361.48	70,829.43
Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen	325,356.51	104,707.56
Cyngor Cymuned Bracla	7,121.84	2,727.17
Coleg Pen-y-bont ar Ogwr	834,787.72	307,155.55
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	15,395,668.83	4,441,579.90
Capita Glamorgan Consultancy	131,026.27	54,746.62
Cymdeithas Gyrfa Cymru	26,251.52	9,447.04
Gyrfa Cymru – Morgannwg Ganol a Phowys	894,253.61	152,328.17
Prif Gwnstabl De Cymru	8,074,341.09	3,472,302.48
Cyngor Cymuned Coety Uchaf	1,351.95	2,216.88
Coleg Y Cymoedd	1,189,826.98	464,711.15
Amlosgfa Llangrallo	37,152.76	11,059.17
Drive Ltd	53,018.43	12,990.77
Buddsoddiad Cyllid Cymru	402,472.58	169,389.27
Cyllid Cymru	237,705.97	68,668.30
Cyngor Cymuned Cwm Garw	4,260.29	1,462.28
Cyngor Cymuned Gelligaer	2,630.28	933.06
Halo Leisure Services Ltd	214,088.91	88,414.62
Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn	3,273.08	1,116.71
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd	462,622.02	276,882.13
KGB Cleaning Ltd	6,915.50	1,543.21
Cyngor Cymuned Llanharan	1,270.92	411.18
Cyngor Cymuned Llantrisant	14,122.56	3,569.67
Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref	17,747.68	4,736.27
Amlosgfa Llwydcoed	20,233.90	7,178.35
Uned Ddata Llywodraeth Leol	66,058.32	48,855.78
Cyngor Tref Maesteg	6,020.14	2,131.06
Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful	192,923.36	96,941.02
Coleg Merthyr Tudful	324,770.46	140,903.64
Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful	30,069.72	5,499.01
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	7,952,850.00	1,959,256.94
Cartrefi Cymoedd Merthyr	288,318.90	300,964.17
Cyngor Menter Pen-y-waun	37,751.35	4,785.69
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru	94,186.54	58,063.26
Cyngor Cymuned Pont-y-clun	9,245.45	2,720.30
Cyngor Tref Pontypridd	63,186.03	17,281.33
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	28,285,243.54	8,017,857.46
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru	303,970.36	144,485.98
Gofal Cymdeithasol Cymru	716,679.50	196,936.50
Awdurdod Tân De Cymru	1,235,215.08	504,415.12
Tribiwnlys Prisio De Cymru	28,994.57	7,518.95
Cyngor Cymuned Tonyrefail	22,962.44	6,601.84
Trivallis	976,837.09	611,616.38
Prifysgol De Cymru	4,558,532.84	2,085,872.39
Valleys To Coast Housing	384,493.39	175,811.87
Vinci Construction UK Ltd	8,453.35	3,229.92
Llywodraeth Cymru (Awdurdod Datblygu Cymru gynt)	6,391,688.82	703,435.59
CBAC	2,668,386.00	557,054.10
Cyfanswm	83,216,426.52	25,388,214.98

Cafodd dros 98.94% o gyfraniadau ariannol eu derbyn yn dda bryd. Cafodd cyfraniadau eu derbyn yn hwyr 17 o weithiau. Rydyn ni'n monitro cyfraniadau a gaiff eu derbyn bob mis, ac rydyn ni'n cysylltu â chyflogwyr os nad ydyn nhw'n cwrdd â therfynau amser.

Treuliau Rheolwyr

Dyma dreuliau rheolwyr y Gronfa a wynebodd y Gronfa Bensiynau yn 2016/17:

	2015/16 £'000	2016/17 £'000
Costau Gweinyddu	1,803	1,748
Treuliau Rheoli'r Buddsoddiadau	7,781	9,456
Costau Goruchwyllo a Llywodraethu	134	295
Cyfanswm	9,718	11,499

Mae hyn yn cyfateb i 0.33% (0.39% yn 2015/16) o werth Cronfa Bensiynau ar 31 Mawrth 2017.

Dyma dreuliau rheoli'r buddsoddiadau a wynebodd y Gronfa Bensiynau yn 2016/17:

	2015/16 £'000	2016/17 £'000
Treuliau Rheolwyr	6,073	6,479
Ffioedd yn ymwneud â chyflawniad	856	2,033
Ffioedd Ceidwaid	153	264
Costau Trafodion	699	680
Cyfanswm	7,781	9,456

Trafodion â Phartïon Perthynol

Yng nghwrs cyflawni'i swyddogaethau yn awdurdod gweinyddu, mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn rhoi gwasanaethau i'r Gronfa. Cododd y Cyngor ffioedd o £1.5m (£1.6m yn 2015/16) am hynny. Mae'r treuliau yma'n bennaf ynghylch y gweithwyr hynny sy'n cael eu cyflogi i ofalu am gynnal gwasanaeth pensiynau.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd cyfraniadau a oedd yn ddyledus oddi wrth Gyrff Cyflogwyr gwerth £5.2 miliwn (£5.1 miliwn yn 2015/16). Roedd £3.9 miliwn yn gyfraniadau cyflogwyr, a £1.3 miliwn yn gyfraniadau gweithwyr.

Mae rhai aelodau o Banel Gweinyddu a Buddsoddi'r Gronfa Bensiynau, Bwrdd y Gronfa Bensiynau a Phwyllgor y Gronfa Bensiynau hefyd yn aelod o Gronfa Bensiynau Rhondda Cynon Taf.

Mae gweinyddu Cronfa Bensiynau Rhondda Cynon Taf yn swyddogaeth y Cyngor llawn, gyda chyfrifoldeb yn cael ei ddirprwyo i Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen. Yn hyn o beth, mae'n ofynnol i'r Gyfarwyddwr Grŵp ddatgan unrhyw fuddiannau gyda phartïon cysylltiedig. Mae modd dod o hyd i'r datguddiad ym mhriaf gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae modd dod o hyd i daliadau Aelodau a Swyddogion ym mhriaf gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Arian wrth gefn

Mae ymrwymadau wrth gefn gwerth £449k (£375k yn 2015/16) ar gyfer gweithwyr sydd wedi gadael ac sydd heb hawlio ad-daliadau.

Trosglwyddiadau Grŵp

Cafodd dim trosglwyddiadau grŵp eu nodi yn 2016/17. Serch hynny, mae'r Gronfa yn prosesu trosglwyddiadau grŵp sy'n dod i mewn ac sy'n mynd allan ar hyn o bryd. Dydy trosglwyddiadau o'r fath ddim yn berthnasol i'r datganiadau ariannol, neu maen nhw yng nghamau cychwynnol y trafodaethau actiwaraid. Mae symiau hefyd yn ddyledus mewn perthynas â setliad terfynol o drosglwyddiadau a gydnabuwyd yn 2014/2015. Does dim amcangyfrifon ar gael eto.

Barn yr Archwilwyr

Datganiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cronfa Bensiynau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Rydw i wedi archwilio cyfrifon y gronfa bensiynau a'r nodiadau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Blynnyddol 2016-17 Cronfa Bensiynau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf er mwyn cadarnhau pa un a ydynt yn gyson â chyfrifon y gronfa bensiynau a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y Datganiad Cyfrifon a gafodd ei baratoi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 a awdurdodwyd i'w cyhoeddi ar 28 Medi 2017. Mae cyfrifon y gronfa bensiynau yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a Datganiad Gwir Asedau.

Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod Cyfrifyddu ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Y corff sy'n gweinyddu, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynnyddol. Fy nghyfrifoldeb i ydy ffurfio barn ar faterion cysondeb y cyfrifon ar y gronfa bensiynau a nodiadau perthynol sy wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynnyddol a chyda'r cyfrifon ar y gronfa bensiynau a nodiadau perthynol sy wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad ar y Cyfrifon y Corff sy'n Gweinyddu. Yn ogystal â hynny, darllenais i'r wybodaeth ategol sydd i'w chael yn yr Adroddiad Blynnyddol, gan roi ystyriaeth i'r goblygiadau ar gyfer fy adroddiad innau pe bawn i'n dod ar draws unrhyw gamddywediadau neu anghysondebau o ran y cyfrifon ar y gronfa bensiynau. Mae'r wybodaeth ategol yma'n cynnwys Adroddiad ar Faterion Gweinyddu, Adroddiad ar Faterion Buddsoddiadau, Adroddiad ar y Cyfrifon, Adroddiad yr Actwari, Adroddiad ar Faterion Cyfathrebu a Threfnau Llywodraethu Pensiynau.

Barn

Yn fy marn i, mae'r cyfrifon ar y gronfa bensiynau a nodiadau cysylltiedig sy wedi'u cynnwys yn Adroddiad Blynnyddol Cronfa Bensiynau Rhondda Cynon Taf yn gyson â chyfrifon y gronfa bensiynau a'r nodiadau perthynol hynny sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad ar y Cyfrifon a baratodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2017. Cafodd y dogfennau yma'u cymeradwyo ar gyfer eu cyhoeddi ar 29 Medi 2017, ac fe gyflwynais farn ddiamod arnynt.

Dydw i ddim wedi rhoi ystyriaeth i effeithiau unrhyw drafodion a wnaethpwyd rhwng y dyddiad y nodais i fy marn ar gyfrifon y gronfa bensiynau ac sy wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad ar Gyfrifon yr awdurdod, 28 Medi 2017 a dyddiad y datganiad hwn.

Anthony Barrett

Dros ac ar ran

Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru

7 Tachwedd 2017

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ



Adroddiad yr Actwari



Cyflwyniad

Yn unol â Rheoliadau'r Cynllun, mae gofyn bod prisiad llawn gan yr Actwari yn cael ei gynnal bob 3 blynedd. Diben y prisiad ydy cadarnhau bod Cronfa Bensiynau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Gronfa) yn bodloni gofynion eu hymrwymadau i gyfranwyr presennol a chyfranwyr y gorffennol ac adolygu graddfeydd cyfrannu'r cyflogwyr. Cynhaliodd Aon Hewitt Limited yr ymchwiliad actwari llawn diwethaf ar 31 Mawrth 2016, yn unol â Rheoliad 62 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

Sefyllfa Actwaraidd

1. Roedd y prisiad ar 31 Mawrth 2016 yn dangos bod cymhareb cyllido'r Gronfa wedi cynyddu ers y prisiad diwethaf gydag asedau (gwerth yr adeg honno o £2,485.4 miliwn ar y farchnad) sy'n bodloni 81% o'r ymrwymadau, ac felly, yn achos y cyfranwyr cyn 1 Ebrill 2014, yn caniatáu cynnydd yn nhaliadau pensiwn yn y dyfodol.
 2. Roedd y prisiad hefyd yn dangos bod eisiau i gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr sy'n rhan o'r cynllun (gyda'i gilydd) i'r Gronfa ar 1 Ebrill 2017 fod fel a ganlyn:
- 17.1% o gyflog pensiynadwy'r flwyddyn. Dyma'r gyfradd a'i hystyriar i fod yn ddigonol, ynghyd â chyfraniadau'r aelodau, i fodloni ymrwymadau'r gwasanaeth ar ôl dyddiad y prisiad (y gyfradd sylfaenol).

Gan ychwanegu

- Symiau ariannol i adfer yr asedau i fodloni 100% o'r ymrwymadau cyn dyddiad y prisiad, dros gyfnod o 22 blynedd o 1 Ebrill 2017 (y gyfradd eilaidd), cyfystyr â 7.2% o dâl pensiwn (neu £30.3 miliwn yn 2017/18) a chynyddu gan 3.25% y flwyddyn ar ôl hynny.

3. Yn ymarferol, byddai sefyllfa pob cyflogwr unigol yn cael ei asesu ar wahân ac mae'r cyfraniadau wedi'u pennu yn adroddiad Aon Hewitt Limited dyddiedig 31 Mawrth 2017 ("adroddiad prisiad yr actwari"). Yn ogystal â'r gyfradd gyfrannu a nodwyd, bydd cyflogwyr yn gwneud taliadau i dalu ymrwymadau ychwanegol sy'n codi'n achos ymddeol yn gynnar (ac eithrio ymddeoliadau yn sgil salwch) i'r Gronfa.
4. Cafodd y cynllun ariannu ar gyfer asesu cyfraniadau cyflogwyr ei fabwysiadu'n unol â'r Datganiad o Strategaeth Ariannu (FSS) a oedd mewn grym ar y pryd. Mae ffyrdd gwahanol o fynd ati ar gyfer cyflwyno cynnydd mewn cyfraniadau a chyfnodau adfer cyflogwyr unigol wedi'u pennu'n adroddiad prisiad yr actwari.
5. Ar gyfer y rhan fwyaf o gyflogwyr, cafodd cyfraddau cyfraniadau'u cyfrifo gan ddefnyddio dull amcanestyniad uned actwaraidd ac roedd prif dybiaethau'r actwari a'u defnyddiwyd i asesu targedau ariannu a chyfraddau cyfrannu fel a ganlyn.


Graddfa disgownt am gyfnodau yn gwasanaethu	
Graddfa disgownt am gyfnodau yn gwasanaethu	
Targed cyllid - Corff sy wedi'i restru	4.50% p.a.
Targed cyllid - Trosiannol	4.10% p.a.
Targed cyllid - Corff amddifad	4.10% p.a.
Rhwymedigaethau Amddifad	2.10% p.a.
Graddfa disgownt am gyfnodau wedi gadael gwasanaeth	
Targed cyllid - Corff sy wedi'i restru	4.50% p.a.
Targed cyllid - Trosiannol	4.10% p.a.
Targed cyllid - Corff amddifad	2.50% p.a.
Rhwymedigaethau Amddifad	2.10% p.a.
Graddfa cynnydd cyflog	3.25% p.a.
Graddfa'r cynnydd mewn cyfrifon pensiynau	2.00% p.a.
Graddfa'r cynnydd ynghylch pensiynau sy'n cael eu talu (yn fwy nag Isafswm Pensiwn Gwarantedig)	2.00% p.a.

Cafodd yr asedau eu priso yn unol â gwerth y farchnad. Mae rhagor o fanylion am y rhagdybiaethau hynny a'u mabwysiadwyd ar gyfer y prisiad wedi'u pennu'n adroddiad prisiad yr actwari.

6. Mae canlyniadau'r prisiad (mae crynodeb ohonyn nhw i'w cael uchod) wedi'u seilio ar y sefyllfa ariannol a phrisiau ar y farchnad fel yr oedden nhw ar ddyddiad y prisiad, 31 Mawrth 2016. Ac felly, dydy'r canlyniadau ddim yn rhoi ystyriaeth i unrhyw newidiadau sy wedi codi ar ôl dyddiad y prisiad.
7. Mae rhaid i adroddiad prisiad ffurfiol yr Actwari a'r dystysgrif Cyfraddau ac Addasiad sy'n nodi cyfraddau cyfraniad y cyflogwyr ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2020 gael eu cymeradwyo erbyn 31 Mawrth 2017. Bydd cyfraddau cyfraniadau yn cael eu hadolygu ar adeg prisiad yr actwari nesaf y Gronfa ar 31 Mawrth 2019 yn unol â Rheoliad 62 o Reoliadau Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol 2013.
8. Actwari'r gronfa, Aon Hewitt Limited, luniodd y datganiad hwn i'w gynnwys yng nghyfrifon y Gronfa. Mae'n rhoi crynodeb o ganlyniadau prisiad yr actwari ar 31 Mawrth 2016. Mae'r prisiad yn rhoi cipolwg ar werth y gronfa adeg y prisiad ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer asesu cyfraddau'r cyfraniadau sydd eu hangen. Darllenwch adroddiad ffurfiol y prisiad sy'n nodi manylion ynghylch y sefyllfa a'i gyfyngiadau yn llawn ochr yn ochr â'r datganiad yma. Dydy Hewitt Associates Limited ddim yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros gorff arall heblaw am ein client ni, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa, o ran y datganiad yma.
9. Mae'r adroddiad prisiad ar gael ar wefan y Gronfa, sef: <http://www.rctpensions.org.uk/EN/GovernanceInvestments/AnnualReports.aspx>

Aon Hewitt Limited

Mai 2017






■ Catherine Black
Uwch Reolwr Carfan



Adroddiad ar Faterion Cyfathrebu



Cyfarfodydd Blynyddol

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fis Tachwedd 2016. Roedd cynrychiolwyr ar ran cyflogwyr mwyaf y gronfa i gyd yn bresennol. Roedd y cyflwyniadau'n rhoi sylw i hynt y gronfa bensiynau, deddfwriaeth, a Phrisiad 2016.

Desg Gymorth

Mae'n desg gymorth ni yn dal i roi cymorth ynghylch ateb eich cwestiynau ar faterion pensiynau rhwng 9am a 5pm dydd Llun i Ddydd Gwener.

Ffoniwch y Ddesg Gymorth ar **01443 680 611**

Gwefan

Mae'r wefan wedi bod yn gaffaeliad o ran cyfathrebu â'n haelodau. Mae'n cynnwys gwybodaeth i aelodau presennol ac aelodau posibl. Mae'n cynnwys gwybodaeth i aelodau presennol a blaenorol yn ogystal â phensiynwyr. Mae holl daflenni ffeithiau Cymru Gyfan, taflenni ffeithiau CLIL, ffurflenni a ddefnyddir yn aml a'n dogfennau llywodraethu wedi'u huwchlwytho i'r wefan, yn ogystal â chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn Lleol.

Mae'r holl ddogfennau am y gronfa bensiynau ar y wefan ac mae'n cael ei diweddarau'n gyson, pan gaiff newidiadau mewn deddfwriaeth eu rhoi ar waith.

Mae'r Ddesg Gymorth yn cyfeirio aelodau at y wefan yn rheolaidd i godi ffurflenni neu i gael gwybodaeth.

Mae adran benodol ar wefan RhCT, lle mae modd i weithwyr penodol fewngofnodi. Mae'r adran yma'n cynnwys yr holl ffurflenni a dogfennau perthnasol y mae eu hangen i weinyddu buddion aelodau, e.e. ffurflenni dechreuwyd newydd.

Ewch i www.rctpensions.org.uk

Cyflwyniadau

Mae Carfan Materion Cyfathrebu'n barod iawn i drefnu seminarau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun a buddion, neu i ddysgu gweithwyr am ofynion gweinyddu'r Cynllun.

Prudential

Mae gan ein Hymgyngorydd Rhanbarthol yn y Gweithle cwmni Prudential gysylltau i nifer o gyflogwyr mawr y Gronfa. Mae'n cynnal seminarau bob blwyddyn sy'n esbonio Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a phwysigrwydd cynllunio ar gyfer ymddeol a buddion talu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol.

Datganiadau Buddion Blynyddol

Yn unol â rheoliadau, mae'r Gronfa'n anfon datganiadau buddion blynyddol at aelodau ac aelodau gohiriedig. Cafodd datganiadau 2016/2017 eu cyflwyno o fewn y terfyn amser a nodwyd yn y rheoliadau gan gydymffurfio â Chanllawiau'r Bwrdd Ymgynghorol.

Roedd datganiadau Aelodau Gohiriedig 2016 ar gael ar-lein, drwy "Fy Mhensiwn Ar-lein".

Ymweliadau â'r cartref

Yn achos salwch difrifol, ac os yw'n briodol, bydd cynrychiolydd ar ran y Gwasanaeth Pensiynau yn dod i'ch gweld chi ar y cyd â chynrychiolydd o'r adran Adnoddau Dynol.

Trefnau Cyfathrebu'n Electronig

Eleni, cafodd y cyfleuster Hunan Wasanaethu (My Pension Online) ar gyfer ein pensiynwyr ei gyflwyno i'n haelodau gohiriedig, yn ogystal â'n haelodau sy'n bensiynwyr. Rydyn ni'n bwriadu cyflwyno'r cyfleuster i'n haelodau gweithredol.

Mae'r cyfleuster yn cynnig y cyfle i'n haelodau sy'n bensiynwyr fwrw golwg ar eu cyfloglenni a ffurflenni P60. Mae modd i'n haelodau gohiriedig fwrw golwg ar werth eu pensiwn ar hyn o bryd a chael gwybod am amcangyfrif eu buddion ymddeol.

Byddwn ni'n parhau i annog aelodau i gyfathrebu â'r Adran Bensiynau yn electronig. Rydyn ni'n gweithio'n ddiflino i sicrhau bod y data a gaiff ei anfon a'i dderbyn yn ddiogel.

Mae'r Gronfa hefyd wedi cyflwyno system trosglwyddo data'n electronig sy'n caniatáu data aelodau a gwybodaeth am gyflog i gael eu huwchlwytho yn uniongyrchol i'n meddalwedd. Byddwn ni'n mynd ati i archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno'r cyfleuster hwn i ragor o weithwyr.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014

Cafodd Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 eu cyflwyno gerbron Senedd San Steffan ar 19 Medi 2013.

Mae'r Rheoliadau'n rhoi manylion am strwythuro

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o 1 Ebrill 2014.

- Buddion yn seiliedig ar Ailbrisio Enillion yn ôl Cyfartaledd Gyrfa (CARE)
- Cyfradd gronïadau 1/49
- Diffiniad cyflog pensiynadwy i gynnwys gwaith goramser nad yw'n rhan o gontract
- Cyflwyno opsiwn 50/50 lle caiff aelodau dalu llai o bensiwn am gyfnodau byr, a chronni hanner eu pensiwn arferol
- Y sawl sy'n ennill cyflogau uwch i gyfrannu mwy
- Oedran Pensiwn Arferol wedi'i gysylltu ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Bydd buddion aelodaeth o'r Cynllun cyn mis Ebrill 2014 yn cadw'r cyswllt cyflog terfynol, a bydd cyflog terfynol (yn seiliedig ar ddiffiniad cyflog pensiynadwy cyn mis Ebrill 2014) yn cael ei bennu pan fydd aelodau'n gadael y cynllun.

Mae gwefan Cronfa Bensiwn RCT yn cynnwys doleri www.lgpsmember.org sydd wedi'i sefydlu a'i chynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol. Ffynhonnell wybodaeth ganolog yw hi sy'n cynnwys amryw o gyfrifiannellau mae modd i aelodau eu defnyddio.

Mae'r Carfanau Cyfathrebu a Gweinyddu yn adolygu ein prosesau a'u gohebiaeth i sicrhau bod y Gronfa yn cydymffurfio â'r rheoliadau, bod y manylion a dderbyniwn gan gyflogwyr pan fydd aelodau'n ymuno neu'n gadael y gronfa yn cynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen a bod ein haelodau'n deall yn llawn sut y cyfrifir eu buddion. Rydyn ni'n parhau i gyfathrebu â'n cyflogwyr sy'n cyfrannu er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i'r CPLIL ac unrhyw newidiadau technegol perthnasol eraill.

Contractio Allan

Daeth trefnau contractio allan i ben ym mis Ebrill 2016, a chafodd cylchlythyr ei anfon at holl aelodau gweithredol sy'n esbonio'r effaith, a'r newidiadau i ddarpariaeth pensiwn y Wladwriaeth. Bellach, dyw'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ddim yn contractio allan.

Cynnydd Costau Byw

Caiff pensiynau sy'n daladwy i aelodau sy'n ymddeol ar sail salwch ac i wŷr/gwagedd/plant aelodau, eu cynyddu'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), o 30 Medi y flwyddyn flaenorol.

Mae pensiynau sy'n daladwy i aelodau eraill sy'n 55 oed neu'n hŷn hefyd yn elwa o brawfesur chwyddiant blynyddol.

Mae dod i ben â threfnau contractio allan wedi arwain at newidiadau o ran pwy sy'n gyfrifol am gynyddu pensiwn sy'n cynnwys Isafswm Pensiwn Gwarantedig (yn ymwneud ag aelodaeth hyd at Ebrill 1997).

Cyn 2016, yr Adran Gwaith a Phensiynau a oedd yn darparu profion chwyddiant statudol (boed yn rhannol neu'n gyfan gwbl). O Ebrill 2016, mae'r Gronfa yn gyfrifol am y cynnydd pensiwn llawn ar unrhyw fuddion GMP i aelodau a fydd yn derbyn pensiwn y wladwriaeth rhwng 6 Ebrill 2016 a 5 Rhagfyr 2018. Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar gynyddu GMP ar gyfer aelodau sy'n cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth ar ôl 5 Rhagfyr 2018.

Y cynnydd yn 2016/2017 oedd 1%.

Trefnau Llywodraethu Pensiynau

Rhaid i awdurdodau gweinyddu sicrhau bod trefniadau llywodraethu sydd ohoni yn cael eu cynnal a'u datblygu er mwyn helpu i ategu'r broses dod i benderfyniad.

Mae trefniadau llywodraethu ar gyfer Cronfa Bensiynau Rhondda Cynon Taf wedi'u crynhoi a'u hegluro mewn sawl dogfen allweddol a wnelo â stiwardiaeth effeithiol y Gronfa.

- Datganiad Cydymffurfio Llywodraethu cyffredinol sy'n nodi safle'r Gronfa yn erbyn safonau ymarfer gorau'r Llywodraeth.
- Datganiad Polisi Llywodraethu sy'n cynnig trosolwg o strwythur llywodraethu, proses dod i benderfyniad ac ymrwymïadau cyflogwyr y cynllun.
- Rydyn ni'n ymrwymo i gynnig gwasanaeth cyfathrebu a gwybodaeth gynhwysfawr i'r gweithwyr sy'n cymryd rhan ac aelodau o'r cynllun pensiynau. Bwriwch olwg ar ein Datganiad Polisi Cyfathrebu i ddarllen am y gwasanaethau.

- Strategaeth Gweinyddu Pensiynau sy'n bwriadu gwella effeithlonrwydd darpariaeth y safonau ansawdd cytûn a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol.
- Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi sy'n dangos yn fanwl sut yr ydyn ni'n rheoli buddsoddiadau'r Gronfa.
- Datganiad Strategaeth Cyllido sy'n rhoi crynodeb o sut y byddwn ni'n ariannu ein rhwymedigaethau pensiwn a throswolwg o sut mae nodi, rheoli ac adolygu unrhyw risgiau i'r gronfa.

Mae'r dogfennau hyn yn cael eu diweddarau'n flynyddol, ac mae'r fersiynau diweddaraf ar gael o dan adran Llywodraethu a Buddsoddi ein gwefan bensiynau, neu, cysylltwch â'n desg gymorth am gopi.

Adroddiad Priso 2016 sy'n esbonio tybiaethau, data a chanlyniadau'r ymarfer priso diwethaf. Mae'r ddogfen yma ar gael o dan adran i weithwyr ein gwefan bensiynau.

Bwrdd Pensiwn Lleol

Yn unol â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, mae'n ofynnol i'r Gronfa Bensiwn, erbyn 1 Ebrill 2015, benodi Bwrdd Pensiynau Lleol i gynorthwyo Awdurdod Gweinyddu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac yntau'n 'Rheolwr y Cynllun' -

- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Prif Reoliadau ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a osodir, mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gan y Rheolydd Pensiynau; a
- Sicrhau trefniadau llywodraethu a gweinyddu effeithiol ac effeithlon o'r Pensiwn Llywodraeth Leol gan Reolwr y Cynllun.

Aelodau'r Bwrdd Pensiynau

Mae'r Bwrdd Pensiynau yn cynnwys 4 aelod - dau gynrychiolydd sy'n gyflogwyr a dau gynrychiolydd sy'n aelodau:

Cynrychiolwyr y Cyflogwyr:

Gweler isod yr unigolion sy'n gyfrifol am gynrychioli holl Gyflogwyr y Gronfa (Cyrrff sydd ar y rhestr, y rhai sydd â'r hawl i benderfynu, a rhai sydd wedi'u derbyn i'r cynllun)

- Yr Athro Hugh Coombs (Cadeirydd), Prifysgol De Cymru
- Mr Gwyn William, Awdurdod Heddlu De Cymru

Cynrychiolwyr yr Aelodau:

Gweler isod yr unigolion sy'n gyfrifol am gynrychioli holl Aelodau'r Cynllun (Aelodau Gweithredol a Gohiriedig, ac Aelodau sy'n bensiynwr)

- Mr Rob Whiles, Pensiynwr
- Mrs Angela Pring, Aelod Gweithredol a chynrychiolydd undeb llafur Unsain

Rôl y Bwrdd Pensiynau

Swyddogaeth graidd gyntaf y Bwrdd yw cynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddu wrth sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau, unrhyw ddeddfwriaeth eraill sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun, a'r gofynion a osodir gan y Rheolydd Pensiynau mewn perthynas â'r Cynllun. O fewn y graddau hyn, bydd y Bwrdd yn ystyried meysydd gan gynnwys:

- Adolygu adroddiadau monitro cydymffurfiaid yn rheolaidd a fydd yn cynnwys adroddiadau a phenderfyniadau o dan Reoliadau'r Pwyllgor.
- Adolygu prosesau a gweithdrefnau rheoli, gweinyddu a llywodraethu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â'r Rheoliadau, y ddeddfwriaeth berthnasol ac yn arbennig Cod Ymarfer y Rheolydd Pensiynau.
- Adolygu prosesau a gweithdrefnau rheoli, gweinyddu a llywodraethu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â'r Rheoliadau, y ddeddfwriaeth berthnasol ac yn arbennig Cod Ymarfer y Rheolydd Pensiynau.

Ail swyddogaeth graidd y Bwrdd yw sicrhau trefniadau

llywodraethu a gweinyddu effeithiol ac effeithlon o'r Cynllun. O fewn y graddau hyn, bydd y Bwrdd yn ystyried meysydd gan gynnwys:

- Cynorthwyo gyda datblygu gwasanaethau gwell i gwsmeriaid.
- Monitro cyflawniad y gwaith gweinyddu, trefniadau llywodraethu a buddsoddi yn erbyn targedau a dangosyddion perfformiad allweddol.
- Monitro adroddiadau archwilio mewnol ac allanol.
- Adolygu canlyniad adroddiadau a phrisiadau actiwaraid.

Newyddion gan y Cadeirydd

Hwn yw'r ail dro i mi roi'r newyddion diweddaraf ar weithgareddau'r Bwrdd Pensiynau.

Yn unol â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, mae'n ofynnol i'r Bwrdd gynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddu wrth:-

- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Prif Reoliadau ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a osodir, mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gan y Rheolydd Pensiynau; a
- Sicrhau trefniadau llywodraethu a gweinyddu effeithiol ac effeithlon o'r Pensiwn Llywodraeth Leol gan Reolwr y Cynllun.


